

# EAL Dilyniant mewn Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)

## Pecyn Aseu



## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
Canllawiau cyffredinol ar ddarparu	4
<b>2. Canllawiau i ddysgwyr</b>	<b>6</b>
Trosolwg o'r asesiad	6
Cyfarwyddiadau ar gyfer tasg Prosiect Ymarferol	7
Trafodaeth dan Arweiniad	10
<b>3. Canllawiau i aseswyr – Asesu Ar-sgrin (Prawf Dilyniant)</b>	<b>12</b>
Gwybodaeth Asesu	13
<b>4. Canllawiau i'r asesydd – Prosiect Ymarferol</b>	<b>15</b>
Manylebau asesu	16
Canllawiau ar y tasgau	17
Canllawiau cyffredinol	20
Marcio a graddio	21
<b>5. Canllawiau i aseswyr– Trafodaeth Dan Arweiniad</b>	<b>23</b>
Gofynion Tystiolaeth	28
Grid marcio – Trafodaeth dan Arweiniad	30
<b>6. Cyfuno graddau 33</b>	<b>35</b>
Cyflwyno canlyniadau a chyfrifo graddau	35
<b>Atodiadau</b>	<b>36</b>
<b>1. Asesiad ar-sgrin</b>	<b>37</b>
<b>2. Ffurflenni cofnodi'r Drafodaeth dan Arweiniad</b>	<b>42</b>

### Gwybodaeth am y Fersiwn

Fersiwn a dyddiad cyhoeddi	Newidiadau
f1 Mehefin 2021	Y ddogfen wreiddiol
f2 Gorffennaf 2022	Gwybodaeth Asesu – Mae trothwyon graddau ar gyfer yr asesiad ar-sgrin wedi'u diweddarau; wedi diweddarau'r wybodaeth am ganlyniadau (t13-14) Cyfuno graddau – enghraifft wedi'i diweddarau gan ddefnyddio'r ffigurau plymio (t33).
f3 Medi 2023	Ychwanegwyd canllawiau ar osod graddau (t13)

# 1. Cyflwyniad

## Beth sydd yn y ddogfen hon? f

- Meini prawf a strwythur asesu
- Tasgau ac arweiniad i'r dysgwr
- Canllawiau i'r asesydd ar asesu, tasgau a graddio

## Trosolwg o'r asesiad

Ffocws yr asesiadau yw bod dysgwyr yn gallu dangos yn glir eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu mewn nifer o ffyrdd er mwyn gallu dangos eu dysgu'n glir. Ar gyfer y cymhwyster hwn, rhaid i'r dysgwr lwyddo i gwblhau:

- **Asesiad ar-sgrin** yn cynnwys ystod o gwestiynau aml-ddewis
- **Prosiect Ymarferol** yn cynnwys tair adran lle mae angen i ddysgwyr ddangos eu sgiliau cynllunio, cyflawni a gwerthuso
- **Trafodaeth dan Arweiniad** yn cynnwys dwy adran, gan gynnwys lle mae dysgwyr yn myfyrio ar gwblhau eu Prosiect Ymarferol.

Oherwydd natur yr asesiadau, **rhaid** cwblhau'r Prosiect Ymarferol cyn y Trafodaeth dan Arweiniad.

## Strwythur asesu

Asesiad	Asesiad ar-sgrin	Prosiect Ymarferol	Trafodaeth dan Arweiniad
Dull gweithredu	Wedi'i osod a'i farcio'n allanol	Wedi'i osod a'i wirio'n allanol, a'i farcio'n fewnol	Wedi'i osod a'i wirio'n allanol, a'i farcio'n fewnol
Allbwn	Gradd	Gradd	Gradd
Pwysoliad (cyfraniad at radd y cymhwyster)	20%	60%	20%

## Canllawiau cyffredinol ar ddarparu

### Cyflwyno'r asesiad i'r dysgwyr

Rhaid i'r asesydd gyflwyno pob asesiad i'r dysgwr pan ystyrir bod y dysgwr yn barod ac wedi paratoi i gwblhau'r asesiad. Rhaid i hyn ddigwydd yn dilyn cyfnod o ddysgu ac asesu ffurfiannol. Rhaid i'r asesydd roi trosolwg llawn ar y broses asesu a'r gwahanol asesiadau i'r dysgwr fel bo'r dysgwr yn gwbl glir beth yw'r daith asesu cyn dechrau eu hasesiad cyntaf.

Bydd rhyddhau'r asesiad i'r dysgwr yn cadarnhau bod gan yr asesydd mewnol ffydd bod y dysgwr wedi derbyn digon o addysgu ac arweiniad i fod wedi datblygu dealltwriaeth fanwl fydd yn rhoi cyfle iddynt ymateb yn llwyddiannus i bob un o'r tasgau.

### Amseru rhwng asesiadau

Dim ond ar ôl i ddysgwyr gwblhau'r Prosiect Ymarferol y gall y Drafodaeth Dan Arweiniad ddigwydd. Rhaid i ganolfannau drefnu i bontio'n hwylus rhwng y ddau asesiad hwn. Oherwydd bod y drafodaeth yn seiliedig ar brosiect y dysgwr, argymhellir na ddylid gadael bwlch o ddim mwy na thair wythnos rhwng pryd fydd y dysgwr wedi cwblhau'r prosiect a chynnal y Drafodaeth dan Arweiniad.

Gellir cwblhau'r asesiad Ar-sgrin ar unrhyw adeg yn y broses asesu, er mai'r argymhelliad yw bod hyn yn digwydd cyn y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad.

### Cyfle cyfartal ac amrywiaeth

Mae'r Consortiwm yn disgwyl y bydd gan unigolion fynediad cyfartal at yr asesiad hwn beth bynnag yw eu rhyw, statws priodasol, oed, crefydd, lliw, hil, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu anabled. Hynny yw, drwy gydymffurfio â'r gyfraith berthnasol ar gydraddoldeb.

Rhaid i ganolfannau fod â pholisi yn ei le i sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu union nac anuniongyrchol yn digwydd, nac o ganlyniad i bwysau gan gyrrff eraill. Rhaid i'r polisi hwn fod yn berthnasol i bob Canolfan loeren a dylai fod trefniadau yn eu lle i fonitro cymhwysiad a pha mor effeithiol yw'r polisi. Os na fydd cwynion am faterion anghydraddoldeb yn cael eu datrys yn foddhaol gan y Ganolfan, er y bydd hynny'n annhebygol, rhaid hysbysu dysgwyr bod ganddynt hawl i apelio i'r Consortiwm drwy'r trefniadau a ddisgrifir yn ein Polisi Apelio.

### Lefel iaith

Mae'r asesiad wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Nid prawf o ddeall Cymraeg na Saesneg ydyw. Felly, ac eithrio yn achos termau technegol sy'n briodol i bwrpas a lefel yr asesiad, rhaid i'r iaith fod ar lefel sy'n briodol i'r dysgwr. Rhaid i aseswyr hefyd ofalu i sicrhau bod y defnydd o iaith yn ystyried nad Cymraeg / Saesneg fydd iaith gyntaf neu iaith ychwanegol pob dysgwr.

### Llên-ladrad

Gall yr asesydd egluro cyfarwyddiadau'r dasg a'r dulliau ar gyfer cadw gwaith ond ni all gynorthwyo yn ystod yr asesiad mewn unrhyw ffordd.

Asesiad yw hwn o alluoedd y dysgwr, felly rhaid i'r gwaith fod yn waith y dysgwr yn gyfan gwbl a'i gyflawni o dan yr amodau a nodir yn y ddogfen hon.

Pan ganiateir gwaith ymchwil, rhaid i'r tiwtor/asesydd allu nodi pa waith y mae'r dysgwr wedi'i wneud ei hun, a beth mae'r dysgwr wedi'i ganfod o ffynonellau eraill. Felly, mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod y dysgwr yn cydnabod pob ffynhonnell ac yn cyfeirio'n glir at unrhyw wybodaeth a gafwyd ganddynt.

## Cam-ymdygiad Academaidd

Lle mae'r asesydd yn amau cam-ymarfer gan y ganolfan / dysgwr – gan gynnwys cyd-gynllwynio neu gam-ymdygiad academaidd, rhaid adrodd hyn yn unol â pholisi cam-ymarfer EAL sydd ar Wasanaethau Ar-lein.

## 2. Canllawiau i ddysgwyr

### Trosolwg o'r asesiad

Mae'n ofynnol i chi gwblhau'r asesiadau canlynol:

#### Asesiad ar-sgrin

Bydd yr asesiad Ar-sgrin yn cynnwys nifer o gwestiynau amlddewis a bydd yn asesu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

#### Prosiect Ymarferol

Bydd y Prosiect Ymarferol yn asesu eich galluoedd yn y grefft o'ch dewis, a bydd angen i chi wneud y canlynol:

- **Cynllunio**'r gwaith y mae angen ei wneud ar gyfer y grefft o'ch dewis yng nghyd-destun prosiect peirianeg gwasanaethau adeiladu mwy
- **Cyflawni**'r tasgau ymarferol, gan ddangos eich sgiliau yn y grefft o'ch dewis
- **Gwerthuso**'r dulliau rydych chi wedi'u defnyddio i gwblhau'r prosiect ac ansawdd eich deilliannau.

Mae'r Prosiect Ymarferol hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod gennych chi'r cyfle i ddangos sgiliau cyflogadwyedd ehangach, gan gynnwys:

- Cyfrifo costau ac adnoddau
- Rheoli amser
- Cynllunio'n effeithiol
- Gosod targedau personol
- Datrys problemau.

Bydd pob elfen o'r prosiect (cynllunio, cyflawni a gwerthuso) yn cael ei marcio gan eich asesydd a bydd y prosiect cyfan yn cael ei raddio.

Mae'n rhaid i chi gwblhau tasg y prosiect o fewn yr amser a nodir yn y briffiau prosiect penodol i grefft sydd yn y Pecyn Prosiect hwn.

#### Trafodaeth dan Arweiniad

Ar ôl cwblhau eich Prosiect Ymarferol, bydd gofyn i chi gwblhau Trafodaeth dan Arweiniad. Bydd y Trafodaeth dan Arweiniad yn cynnwys dwy ran a fydd yn eich galluogi i adolygu a myfyrio ar y tasgau rydych chi wedi'u cyflawni, yn ogystal ag archwilio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o hunangyflogaeth yn y grefft o'ch dewis.

## Cyfarwyddiadau ar gyfer tasg Prosiect Ymarferol

Mae hwn yn asesiad ffurfiol lle dyfernir marciau i chi ar sail ansawdd a chywirdeb eich perfformiad ymarferol. Felly, mae'n bwysig eich bod yn cyflawni eich gwaith i'r safon uchaf bosibl. Rhaid i chi ddangos pa mor dda yw'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r grefft o'ch dewis, a sut rydych chi'n gallu defnyddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau ynghyd i gyflawni'r tasgau.

Bydd eich aseswr yn rhoi briff prosiect i chi ar gyfer y grefft o'ch dewis.

Mae tair elfen i'r prosiect hwn: cynllunio, perfformio a gwerthuso.

Mae gennych:

- 14 awr wedi'u neilltuo i gynllunio'r 3 tasg (cynllunio),
- 40 awr wedi'u neilltuo i gyflawni'r 3 tasg (cyflawni),
- 6 awr i werthuso'r 3 tasg yn y prosiect (gwerthuso).

Chewch chi ddim defnyddio'r amser a roddwyd i chi ar gyfer pob elfen ar gyfer elfen arall. Er enghraifft, os byddwch yn cwblhau eich gwaith cynllunio mewn 12 awr, chewch chi ddim defnyddio'r 2 awr arall ar gyfer yr elfennau cyflawni na gwerthuso.

Bydd gofyn i chi lunio cynlluniau ar gyfer pob un o'r 3 tasg gan ddangos y dull y byddwch yn ei ddefnyddio i ymgymryd â'r gwaith sy'n ofynnol yn y tasgau, wedi'i ategu gan amserlen waith gyffredinol.

Ar ôl cwblhau'r dasg, bydd gofyn i chi werthuso eich gwaith.

Rhaid i chi ddilyn yr holl weithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol bob amser.

Mae'r canllawiau Cynllunio a Gwerthuso isod hefyd ar gael yn y Pecyn Prosiect a fydd yn cael ei ddarparu gan eich asesydd, mae gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon i gefnogi dealltwriaeth o'r broses ac i ddarparu cyd-destun.

Mae'n ofynnol i chi gwblhau tair adran yr asesiad (Cynllunio, Cyflawni, Gwerthuso) yn y drefn a amlinellir isod:

### Tasg gynllunio

Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ystafell ddosbarth lle byddwch yn gallu cael gafael ar offer TG ac adnoddau priodol i wneud eich gwaith ymchwil. Gallai'r adnoddau hyn gynnwys nodiadau cyfarwyddyd, rheoliadau a chyfarwyddiadau / llenyddiaeth y gwneuthurwr.

Gofynnir i chi lunio'r pethau canlynol:

- rhestr adnoddau sy'n cynnwys yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gwblhau pob tasg (cyfeiriwch at fanylebau'r dasg a ddarparwyd)
- asesiad risg
- datganiad dull sy'n cynnwys amserlen waith (gydag amserlenni) – rhaid i'ch cynllun nodi faint o amser rydych chi'n amcangyfrif y byddwch chi'n ei gymryd ar gyfer pob tasg, gan nodi'r prif weithgareddau/camau gwaith ym mhob tasg a faint o amser rydych chi'n disgwyl i'r rhain ei gymryd, unrhyw ddibyniaethau posibl rhwng gweithgareddau/cyfnodau gwaith, unrhyw gerrig milltir rydych chi'n dymuno eu cyflawni – er enghraifft prif weithgareddau'r tasgau
- lluniadau/diagramau (os nodir hynny ym manyleb y dasg)
- amcangyfrif cwsmeriaid ar gyfer pob tasg (gweler yr wybodaeth isod am gostau prosiect)

- set o feini prawf llwyddiant rydych chi wedi'u gosod i chi'ch hun ar gyfer y tasgau cyflawni. Gall eich meini prawf llwyddiant fod yn berthnasol i beth bynnag rydych chi'n meddwl sy'n briodol ar gyfer y gwaith, er enghraifft ansawdd y gwaith gosod/gorffen, ffyrdd o weithio (e.e. mesur a marcio, drilio, gosod, plygu, saernio, clipio, ac ati). Meddyliwch pam eich bod wedi gosod y meini prawf llwyddiant a sut bydd y rhain yn cefnogi allbwn o safon.

Meddyliwch am y canlynol:

**'Beth mae gwaith adeiladu/ gwaith gosod da yn ei olygu yn fy maes crefft i?  
Sut gallaf gyflawni hyn?'**

Bydd eich darparwr dysgu'n rhoi ffurflenni i ategu eich ymatebion i'r dasg hon.

Rhaid i chi gynnwys yr wybodaeth hon uchod yn eich cynlluniau.

### Tasg costau prosiect

Ar gyfer yr elfen hon, mae'n ofynnol i chi lunio amcangyfrif ar gyfer cwsmer ar gyfer **pob un o'r tasgau yn y briff penodol a ddarperir gan eich aseswr.**

Rydych yn hunangyflogedig ac yn gweithio ar eich pen eich hun; mae eich gorbenion yn cynnwys yswiriant, costau rhedeg faniau, a chostau gweinyddol sy'n dod i gyfanswm o £6.25 yr awr waith, eich cyfradd fesul awr yw £25 yr awr, ac mae'ch busnes yn gweithredu ar 25% o elw.

Defnyddiwch y rhestr adnoddau a'r llinellau amser o'r amserlen waith rydych chi wedi'i pharatoi i lunio amcangyfrif ar gyfer cwsmer.

Rhaid i'r dyfynbris hwn gynnwys:

- trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud
- y pris cyffredinol i'r cwsmer am y dasg – gan gynnwys sut y penderfynwyd arni (dangoswch eich gwaith amcangyfrifo os gwelwch yn dda)
- hyd y dasg
- rhestr adnoddau gyda chostau

Byddwch yn cwblhau cynlluniau ar gyfer pob un o'r 3 tasg yn y Prosiect Ymarferol, rhaid i bob un o'r 3 fodloni'r marc llwyddo trothwy ar gyfer yr elfen gynllunio cyn symud ymlaen i'r elfen gyflawni yn y Prosiect Ymarferol.

Mae angen dau gopi o bob cynllun; rhaid cyflwyno un i'ch asesydd a chadw un copi i'w ddefnyddio yn elfen gyflawni'r prosiect.



## Cyflawni

Bydd yr elfen hon o'r prosiect yn cael ei gwneud yng ngweithdy'r ganolfan.

Cyn dechrau'r asesiad, rhaid i chi wirio'r amgylchedd gwaith a chadarnhau diogelwch y lleoliad gwaith/man gweithio cyfagos i chi eich hun ac eraill. Mae angen nodi unrhyw faterion a thynnu sylw eich asesydd atynt cyn i chi fwrw ymlaen. Rhaid i chi hefyd ddewis cyfarpar diogelu personol priodol i gyflawni'r dasg/tasgau.

Gan ddefnyddio'r rhestr adnoddau, unrhyw ddiagramau a datganiad dull a luniwyd gennych yn flaenorol, dewiswch y deunyddiau, y cydrannau a'r gosodiadau offer priodol a chwblhau'r dasg/tasgau a nodwyd ym mrieff y prosiect a ddarparwyd gan eich asesydd, gan sicrhau bod unrhyw brofion gofynnol yn cael eu cwblhau o fewn yr amser a roddwyd.

## Gwerthuso

Ar ôl cwblhau'r elfen gyflawni, mae'n ofynnol i chi ysgrifennu **un** adroddiad gwerthuso sy'n adlewyrchu'r **holl dasgau** a wnaed fel rhan o'r prosiect. Yn yr adroddiad hwn, rhaid i chi werthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r tasgau ac ansawdd y deilliannau, gan gymharu deilliannau'r prosiect â gofynion y dasg a'ch cynllun gan gynnwys y meini prawf llwyddiant rydych wedi'u gosod yn flaenorol.

Byddwch yn cynnal y gwerthusiad hwn mewn ystafell ddosbarth.

Wrth gwblhau eich gwerthusiad o'r prosiect byddwch yn gallu cael gafael ar eich dogfennau cynllunio i gefnogi'r gweithgaredd hwn.

### Rhaid i'ch gwerthusiad ateb y canlynol:

- Wnaethoch chi fodloni gofynion eich cynllun?
- Wnaethoch chi fodloni eich meini prawf llwyddiant?
- Wnaethoch chi fodloni'r gofynion ar gyfer pob tasg?

Ystyriwch hefyd fel sy'n berthnasol:

- Beth aeth yn dda? Beth yw eich cryfderau?
- Beth oedd ddim cystal? Oedd gennych chi unrhyw feysydd i'w gwella?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol petaech yn cynnal y dasg/tasgau eto? Fyddech chi'n defnyddio dull gwahanol y tro nesaf?
- Pa mor dda wnaethoch chi gynllunio? Ddylech chi fod wedi gwneud mwy?
- Pa broblemau gawsoch chi? Sut wnaethoch chi oresgyn hynny?
- Aeth y tasgau ymarferol yn ôl y bwriad? (e.e. adnoddau, amser)
- Os gwnaethoch chi gynnal profion/comisiynu, beth oedd ystyr eich canlyniadau?
- Beth wnaethoch chi ei ddysgu o'r prosiect?

## Iechyd a diogelwch

Rhaid i chi weithio'n ddiogel bob amser. Rhaid i chi bob amser ddilyn unrhyw reoliadau a chodau ymarfer iechyd a diogelwch perthnasol.

Os bydd eich tiwtor/asesydd yn eich gweld yn gweithio mewn ffordd annïogel i chi eich hun neu eraill, byddant yn gofyn i chi roi'r gorau iddi ar unwaith, ac yn dweud pam. Gall hyn eich arwain i fethu'r asesiad yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r tor-dyletswydd.

## Cyflwyno'r gwaith

Mae angen ymatebion ysgrifenedig ar gyfer y tasgau yn adran cynllunio a gwerthuso'r prosiect. Rhaid darparu'r ymatebion ysgrifenedig fel ymatebion electronig wedi'u teipio. Rhaid i chi sicrhau bod eich gwaith yn daclus, hy defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (er enghraifft Times New

Roman, neu ffont gyfatebol, maint 12), defnyddiwch fylchiad dwbl a chynnwys ymylon digonol.

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod pob darn o waith wedi'i labelu'n glir â'ch enw, rhif y ganolfan, rhif y dysgwr a chyfeirnod yr aseiniad.

Rhaid cadw pob ffeil electronig yn y fformat canlynol: CYFENW\_ENW CYNTAF\_ENW'R ASESIAD\_DYDDIAD\_RHIF Y FERSIWN

## Trafodaeth dan Arweiniad

Mae dwy ran i'r Drafodaeth dan Arweiniad, a fydd yn cael eu cwblhau mewn un eisteddiad wedi'i amseru.

Pwrpas y Drafodaeth dan Arweiniad yw cadarnhau:

- eich gallu i adolygu a myfyrio ar y tasgau rydych chi wedi'u cyflawni fel rhan o'r Prosiect Ymarferol ac i chi ddangos beth ydych chi wedi'i ddsygu o'r tasgau hyn.
- eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o sut y gallech weithio yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu yn hunangyflogedig; gan ystyried nodweddion, manteision ac anfanteision hunangyflogaeth a'r ystyriaethau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod gennych ddyletswydd gofal ar gyfer defnyddwyr.
- eich gwybodaeth am y cyrff a'r sefydliadau crefft sy'n bodoli yn y sector ac ar gyfer y grefft o'ch dewis, a sut byddech chi'n rhyngweithio â nhw pe baech chi'n hunangyflogedig.

Bydd y Drafodaeth dan Arweiniad yn para 40 munud ac yn cael ei chynnal gan asesydd dan amodau tawel a di-dor.

Gellir cyfeirio at y dystiolaeth o'ch prosiect gorffenedig yn ystod y Drafodaeth dan Arweiniad.

Fe'ch cynghorir y bydd eich asesydd yn cofnodi'r Drafodaeth dan Arweiniad at ddibenion asesu.

Bydd y Drafodaeth dan Arweiniad yn ymdrin â'r meysydd cynnwys fel yr amlinellir yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Rhaid cael isafswm marciau ym mhob adran o'r Drafodaeth dan Arweiniad, a bydd eich asesydd yn rhoi gwybodaeth am y gofynion hyn cyn cynnal yr asesiad.

## Gwybodaeth i helpu i baratoi ar gyfer y Drafodaeth dan Arweiniad:

Yn yr asesiad hwn, bydd aseswyr yn ceisio casglu tystiolaeth o bob un o'r meysydd trafod canlynol:

### Uned 201

- 1.1 Y cyrff a'r sefydliadau crefft sy'n berthnasol i'r grefft
  - 1.2 Rôl y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu
- 
- 2.1 Nodweddion hunangyflogaeth
  - 2.2 Manteision ac anfanteision bod yn hunangyflogedig
  - 2.3 Cyfrifoldebau bod yn hunangyflogedig
  - 2.4 Patrymau mewn cyflogaeth a chynnydd a chwymp yn y galw
  - 2.5 Dyletswydd gofal i sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr
- 
- 3.1 Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol ag eraill
  - 3.2 Pwysigrwydd deallusrwydd emosiynol mewn cyfathrebu effeithiol.
  - 3.3 Sut mae cynllunio a rheoli eich amser eich hun.
  - 3.4 Sut i osod targedau a meini prawf llwyddiant
  - 3.5 Pwysigrwydd adfyfrio.
- 
- 4.1 Adnabod problemau a all godi mewn prosiectau gwasanaethau adeiladu
  - 4.2 Sut mae dod o hyd i atebion i broblemau.
  - 4.3 Sut mae profi a gwerthuso atebion.

### Uned 204

- 1.1 Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes peirianeg gwasanaethau adeiladu
  - 1.2 Sut mae gwybod y gofynion o ran adnoddau
  - 1.3 Sut i amcangyfrif yr amser sydd ei angen
- 
- 2.1 Dewis yr adnoddau angenrheidiol i gwblhau'r dasg
  - 2.2 Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cwblhau'r dasg.
  - 2.3 Nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg
- 
- 3.1 Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddiant

### 3. Canllawiau i aseswyr – Asesu Ar-sgrin (Prawf Dilyniant)

#### Cyflwyniad

Mae'r asesiad Ar-sgrin yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwahanol feysydd dysgu craidd.

Gellir cymryd yr asesiadau cyntaf o 1 Mawrth 2022.

#### Manyleb Asesu – Asesiad Ar-sgrin

Mae manylebau asesu ar gyfer yr asesiadau ar-sgrin ar gyfer pob crefft yn Atodiad 1 y ddogfen hon.

## Gwybodaeth Asesu

Nifer y cwestiynau 50

<b>Marciau ar gael</b>	50
------------------------	----

### Gosodiad gradd

Rhaid i'r dysgwr gyflawni'r safon ofynnol er mwyn derbyn y radd berthnasol. Mae'r safon yn cael ei bennu gan arbenigwyr pwnc yn ystod y broses datblygu arholiadau. Mae'r arbenigwyr pwnc yn gosod gofyniad sgôr toriad ar gyfer y graddau pasio (P1) a rhagoriaeth (D1). Mae'r holl raddau eraill o fewn asesiad yn deillio gan ddefnyddio'r sgoriau torri y cytunwyd arnynt.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu, er bod y safon ofynnol yn aros yr un fath, gall y marc pasio newid ar draws gwahanol fersiynau o'r arholiad

<b>Graddio</b>	Mae'r tablau isod yn darparu ffiniau gradd fynegol ar gyfer yr asesiadau ar-sgrin, gall y rhain amrywio yn ôl fersiynau gwahanol yr asesiadau hyn.
----------------	--

### Plymio

Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)	Gradd Asesu	Pwyntiau
0 - 30	Methu	0
31 - 32	P1	1
33 - 33	P2	2
34 - 35	M1	3
36 - 37	M2	4
38 - 41	D1	5
42 - 45	D2	6
46 - 50	D3	7

<b>Trydanol</b>	<table border="1"> <thead> <tr> <th>Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)</th> <th>Gradd Asesu</th> <th>Pwyntiau</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>0 - 27</td> <td>Methu</td> <td>0</td> </tr> <tr> <td>28 - 29</td> <td>P1</td> <td>1</td> </tr> <tr> <td>30 - 31</td> <td>P2</td> <td>2</td> </tr> <tr> <td>32 - 34</td> <td>M1</td> <td>3</td> </tr> <tr> <td>35 - 37</td> <td>M2</td> <td>4</td> </tr> <tr> <td>38 - 41</td> <td>D1</td> <td>5</td> </tr> <tr> <td>42 - 45</td> <td>D2</td> <td>6</td> </tr> <tr> <td>46 - 50</td> <td>D3</td> <td>7</td> </tr> </tbody> </table>	Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)	Gradd Asesu	Pwyntiau	0 - 27	Methu	0	28 - 29	P1	1	30 - 31	P2	2	32 - 34	M1	3	35 - 37	M2	4	38 - 41	D1	5	42 - 45	D2	6	46 - 50	D3	7
Marciau (Enghraifft o brawf enghreifftiol)	Gradd Asesu	Pwyntiau																										
0 - 27	Methu	0																										
28 - 29	P1	1																										
30 - 31	P2	2																										
32 - 34	M1	3																										
35 - 37	M2	4																										
38 - 41	D1	5																										
42 - 45	D2	6																										
46 - 50	D3	7																										

**Mathau o gwestiynau** Aml-ddewis

<b>Amser a roddir</b>	75 munud
-----------------------	----------

## Argaeledd

Mae'r asesiad hwn ar gael ar-sgrin ar gais o 1 Mawrth 2022 ymlaen. Bydd canolfan yn gallu 'archebu' profion i'w dysgwyr ar ddyddiad ac amser sy'n hwylus iddynt. Bydd dysgwyr yn sefyll yr asesiad drwy'r llwyfan ar-sgrin.

## Amodau asesu

Bydd y prawf yn cael ei wneud ar-lein a'i farcio'n electronig. Does dim angen unrhyw wirio mewnol nac allanol. Rhaid i asesiadau gael eu goruchwylio gan aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant goruchwylio arholiadau. Ni chaniateir deunydd cyfeirio. Mae angen cyfrifiannell nad yw'n un y gellir ei rhaglennu.

## Canlyniadau

Mae'r canlyniadau ar gyfer y 50 dysgwr cyntaf yn cael e'u dal a'u hadolygu gan EAL fyny at 20 diwrnod gwaith o ddyddiad yr asesiad ar gyfer fersiynau newydd wrth iddynt gael eu rhyddhau. Yn dilyn yr adolygiad hwn, a fel arall bydd canlyniadau yn cael eu rhyddhau yn syth ar ôl yr asesiad.

## Trefniadau i ailsefyll

Bydd dysgwyr sy'n methu ag ennill y marc angenrheidiol i lwyddo yn yr asesiad yn cael ailsefyll.  
Os bydd dysgwyr yn methu â llwyddo yn yr asesiad y tro cyntaf, maen nhw'n cael ailsefyll. Gall dysgwr ailsefyll yr asesiad faint bynnag o weithiau ag y mae'n dymuno.  
Wrth ailsefyll, gall dysgwr ennill yr ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael.

## 4. Canllawiau i'r asesydd – Prosiect Ymarferol

Mae Pecyn Prosiect ar wahân wedi cael ei ddarparu sy'n cynnwys briffiau prosiect penodol i grefft a gridiau marcio ar gyfer cynllunio, cyflawni a gwerthuso rhannau o'r prosiect.

### Cyflwyniad

Rhaid i ddysgwyr gwblhau asesiad o Brosiect Ymarferol yn ymwneud â masnach crefft o'u dewis. Mae'r cyfarwyddiadau tasgau a roddir i ddysgwyr yn gyffredinol i'r holl fasnachau crefft, gyda briffiau prosiect penodol ar gyfer pob masnach grefft. Rhaid i'r asesydd gyflwyno'r briff prosiect perthnasol (sydd yn y Pecyn Prosiect) i'r dysgwr cyn dechrau'r asesiad.

Ar gyfer yr asesiad hwn, rhaid llwytho'r briffiau prosiect cyfredol 'byw' perthnasol i lawr (bydd o leiaf dau ar gael bob amser) yn ddiogel oddi ar wefan y Consortiwm cyn cynnal yr asesiad. Dylid llwytho'r rhain i lawr o leiaf tair wythnos cyn yr asesiad fel bo'r ganolfan yn gallu cadarnhau a dod o hyd (lle bo angen) i'r deunyddiau a'r adnoddau angenrheidiol. Rhaid rhoi briff y prosiect i'r dysgwr dim ond ar ddechrau'r cyfnod asesu.

## Manylebau asesu

Mae'r fanyleb asesu isod yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r deilliannau sy'n cael sylw yn elfennau gwahanol y Prosiect Ymarferol.

<b>Rhan 1. Cynllunio</b>	
<b>Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth o:</b>	<b>Uned a Deilliant Dysgu</b>
<b>1 Cynllunio'r Prosiect</b>	
<b>Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg</b>	Uned 204: LO1
<b>Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cyflawni'r dasg</b>	Uned 204: LO2
<b>Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes peirianeg gwasanaethau adeiladu</b>	Uned 204: LO1
<b>Nodi meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg</b>	Uned 204: LO2

<b>Rhan 2. Cyflawni</b>	
<b>Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth o:</b>	<b>Uned a Deilliant Dysgu</b>
<b>2 Maes Ymarferol y Prosiect: Cynnwys Penodol i Grefft</b>	
Plymio a Gwresogi	Uned 212PH LO1 – LO9
Trydanol	Uned 208E LO1 – LO16

<b>Rhan 3. Gwerthuso</b>	
<b>Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth o:</b>	<b>Uned a Deilliant Dysgu</b>
<b>3 Maes Gwerthuso'r Prosiect: Maes Cynnwys Penodol i Grefft</b>	
<b>Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddiant</b>	Uned 204: LO3



## Canllawiau ar y tasgau

Mae'r canllawiau Cynllunio a Gwerthuso isod hefyd ar gael yn y Pecyn Prosiect er mwyn cefnogi'r gwaith darparu. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon i gefnogi dealltwriaeth o'r broses ac i roi cyd-destun.

### Tasg gynllunio

Bydd angen i'r dysgwr lunio cynllun ar gyfer pob un o'r tasgau ym mrieff prosiect y grefft o'i ddewis.

Dylai dysgwyr gwblhau eu cynllunio yn yr ystafell ddogfen, wedi'i fonitro gan staff y ganolfan sydd wedi cael hyfforddiant goruchwylio arholiadau. Bydd rhaid i ddysgwyr ddefnyddio cyfleusterau TG gyda mynediad i'r we, gwybodaeth gan y gwneuthurwr, catalogau cyfanwerthwyr, nodiadau cyfarwyddyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac unrhyw ddeunydd arall a fyddai ar gael iddynt pe bai'r prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn y gweithle.

Nid oes ffurflenni cofnodi penodol wedi cael eu darparu ar gyfer dogfennau ysgrifenedig fel asesiadau risg neu ddatganiadau dull. Rhaid i ganolfannau roi ffurflenni i ddysgwyr ar gyfer elfen gynllunio'r prosiect.

Unwaith y bydd y dysgwr wedi cwblhau'r dasg gynllunio, rhaid cyflwyno copi o'u cynllun i'r asesydd at ddibenion asesu a dylai'r dysgwr gadw copi arall i'w ddefnyddio ar gyfer elfen gyflawni'r prosiect. Yn unol â'r canllawiau a roddir i ddysgwyr, rhaid ei ddarparu fel copi electronig.

I gynorthwyo asesu parhaus, rhaid i'r asesydd farcio'r elfen gynllunio a **chadarnhau bod y trothwy gofynnol i lwyddo wedi'i gyflawni ar gyfer y tri chynllun tasg cyn y gall y dysgwr symud ymlaen at elfen gyflawni'r Prosiect Ymarferol**. Bydd hyn yn sicrhau bod dysgwyr ond yn symud ymlaen ar ôl iddynt ganfod y gofynion iechyd a diogelwch, a'r deunyddiau a chyfarpar angenrheidiol i gwblhau'r tasgau.

**Dim ond y marc ar gyfer y cynllun â'r sgôr uchaf fydd yn cyfrannu at farc cyffredinol y prosiect.**

Rhaid i benderfyniadau asesu a chadarnhad o'r camau nesaf gael eu rhannu â'r dysgwr o fewn wythnos i gwblhau'r elfen gynllunio.

I gynorthwyo hwylystod y tasgau ymarferol, mae rhestr offer a deunyddiau ar gael fel rhan o'r briff prosiect ar gyfer pob masnach grefft (gweler y Pecyn Prosiect ar wahân). **Cofiwch mai at ddefnydd y ganolfan yn unig yw'r rhestrau hyn ac na ddylid eu rhoi i ddysgwyr** - dylen nhw ddefnyddio eu rhestr eu hunain o ddeunyddiau a chyfarpar o'r dasg gynllunio.

Bydd gofyn i ddysgwyr greu'r pethau canlynol:

- rhestr adnoddau sy'n cynnwys yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gwblhau pob tasg (cyfeiriwch at fanylebau'r dasg a ddarparwyd) (**cyfeirnod grid marcio - a**)
- asesiad risg (**cyfeirnod grid marcio - b**)
- datganiad dull sy'n cynnwys amserlen waith (gydag amserlenni) gan nodi'r prif weithgareddau/camau gwaith ym mhob tasg a faint o amser rydych chi'n disgwyl i'r rhain ei gymryd, unrhyw ddibyniaethau posibl rhwng gweithgareddau/cyfnodau gwaith, unrhyw gerrig milltir rydych chi'n dymuno eu cyflawni – er enghraifft prif weithgareddau'r tasgau (**cyfeirnod grid marcio - b a d**)

- lluniadau/diagramau (os nodir hynny ym manyleb y dasg) (**cyfeirnod grid marcio b**)
- amcangyfrif cwsmeriaid ar gyfer pob tasg (gweler yr wybodaeth isod am gostau prosiect) (**cyfeirnod grid marcio - c**)
- meini prawf llwyddiant ar gyfer pob tasg. Gall hyn fod yn berthnasol i beth bynnag maen nhw'n meddwl sy'n briodol ar gyfer y tasgau, er enghraifft ansawdd y gwaith gosod, ffyrdd o weithio (e.e. mesur a marcio, drilio, gosod, plygu, saernïo, clipio, ac ati). Dylai dysgwyr allu cyfiawnhau pam eu bod wedi gosod y meini prawf llwyddiant sydd ganddynt a sut maent yn cefnogi allbynnau/deilliannau o safon. (**cyfeirnod grid marcio - e**).

## Tasg cost y prosiect

Mae'r elfen hon o'r asesiad yn gofyn i'r dysgwr ddatblygu amcangyfrif ar gyfer y cwsmer **ar gyfer pob un o dasgau briff penodol ei grefft ddewisol**. Rhaid darparu briff y prosiect ar gyfer y grefft ddewisol i'r dysgwr cyn iddo ddechrau'r asesiad hwn. Mae briffiau prosiect ar gael ym Mhecyn y Prosiect.

Bydd y dysgwr yn cwblhau'r dasg ganlynol:

Rydych yn hunangyflogedig ac yn gweithio ar eich pen eich hun; mae eich gorbenion yn cynnwys yswiriant, costau rhedeg faniau, a chostau gweinyddol sy'n dod i gyfanswm o £6.25 yr awr waith, eich cyfradd fesul awr yw £25 yr awr, ac mae'ch busnes yn gweithredu ar 25% o elw.

Defnyddiwch y rhestr adnoddau a'r llinellau amser o'r amserlen waith rydych chi wedi'i pharatoi ar gyfer un o'r tasgau i lunio amcangyfrif ar gyfer cwsmer ar gyfer y dasg ddewisol.

Rhaid i'r dyfynbris hwn gynnwys:

- trosolwg o'r gwaith sydd i'w wneud
- pris cyffredinol i'r cwsmer am y dasg – gan gynnwys sut y penderfynwyd ami (dangoswch eich gwaith amcangyfrifo os gwelwch yn dda)
- hyd y dasg
- rhestr adnoddau gyda chostau

Mae ganddynt **14 awr** i gwblhau'r elfen gynllunio. Os ydynt yn cwblhau mewn llai o amser, ni allant ddefnyddio'r amser ychwanegol yn elfennau eraill y prosiect hwn na chymryd amser oddi wrth elfennau eraill i ychwanegu amser yma.

## Tasg ymarferol (Cyflawni)

Bydd yr elfen hon o'r asesiad yn cynnwys tair tasg.

Bydd y dysgwr yn defnyddio'r cynlluniau maent wedi'u creu i'w cefnogi i gwblhau'r tasgau yn yr amser a nodwyd.

Bydd hyn yn cael ei wneud yng ngweithdy'r ganolfan, dan oruchwyliaeth staff y ganolfan bob amser, gan sicrhau bod gan ddysgwyr ddigon o ddeunyddiau, offer, cyfarpar a deunyddiau traul i gyflawni'r tair tasg.

Bydd ceisiadau ychwanegol am ddeunyddiau oherwydd gwastraff yn arwain at dynnu pwyntiau fel y dangosir ar y daflen farcio.

Rhaid i'r asesydd dynnu llun tystiolaeth o'r gwaith sydd wedi'i gwblhau, a'i farcio gan ddefnyddio'r cynllun marcio a ddarparwyd. Bydd y dystiolaeth ffotograffig yn creu cofnod o'r gwaith gorffenedig ac yn helpu i gyfiawnhau'r marciau a ddyfernir gan yr asesydd ar y cyd â'r cynllun marcio perfformiad.

## Bydd dysgwyr yn cael eu marcio ar sail eu gallu i weithio'n ddiogel yn ystod y Prosiect Ymarferol. Rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch.

Os byddwch yn gweld gweithio'n anniogel, stopiwch y dysgwr ar unwaith a dweud wrtho pam. Os yw'n cael ei ystyried yn fân dor-dyletswydd, rhaid dweud wrthynt pam fod yr hyn a wnaethant yn anniogel (ee creu perygl baglu) ac wedyn caniatáu iddynt barhau â'r asesiad. Os ydynt yn gweithio mewn modd sy'n cael ei ystyried yn achos difrifol o dorri rheolau iechyd a diogelwch (megis camddefnyddio offer a chyfarpar yn fwriadol, gan greu perygl iddynt eu hunain/eraill), neu os oes ydynt wedi cyflawni mwy na thri mân doriad, yna rhaid rhoi'r gorau i'r asesiad, a byddant yn methu'r asesiad.

Mae gan ddysgwyr **40 awr** i gwblhau'r elfen ymarferol hon a gallant benderfynu sut i ddefnyddio'r amser yn briodol ar gyfer y tair tasg yn unol â'u cynlluniau. Os ydynt yn cwblhau mewn llai o amser, ni allant ddefnyddio'r amser ychwanegol yn elfennau eraill y prosiect hwn na chymryd amser oddi wrth elfennau eraill i ychwanegu amser yma.

## Gwerthusiad

Ar ôl i'r dysgwyr gwblhau elfen perfformio'r prosiect, mae'n rhaid iddyn nhw lunio **un** adroddiad gwerthuso sy'n pwysu a mesur y prosiect cyfan ac sy'n cynnwys yr holl dasgau. Yn yr adroddiad hwn, rhaid i'r dysgwyr werthuso'r dulliau a ddefnyddiwyd i gwblhau'r tasgau ac ansawdd y deilliannau, gan gymharu canlyniadau/deilliannau eu prosiect â gofynion y dasg a'u cynllun, gan gynnwys y meini prawf llwyddiant a osodwyd.

Bydd hyn yn cael ei wneud mewn ystafell ddosbarth dan oruchwyliaeth staff y ganolfan, gan sicrhau bod dysgwyr yn gallu gweld eu dogfennau cynllunio i gefnogi eu gweithgareddau adolygu a gwerthuso.

Mae ganddynt **6 awr** i gwblhau'r elfen gynllunio.

## Canllawiau cyffredinol

### Amserlen

Disgwylir i'r Prosiect Ymarferol hwn gael ei gwblhau ar adeg yn y rhaglen ddysgu a ystyrir i fod yn briodol gan y ganolfan, gan roi amser i ailsefyll lle bo angen. Rhaid i staff y ganolfan gynllunio'r asesiad i gynorthwyo'r holl dasgau sydd i'w cwblhau ac o fewn amserlen sy'n hwylus i'r dysgwr a'r ganolfan fel ei gilydd. Rhaid cynorthwyo'r dysgwr drwy gydol y cyfnod hwn i symud ymlaen gyda'r tasgau heb unrhyw fwch nac oedi diangen i'r asesiad.

Os oes angen mwy o amser ar ddysgwr i gwblhau'r asesiad(au) oherwydd salwch / absenoldeb tosturiol, yna rhaid ystyried hyn gan ddilyn polisi ac ymarfer Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig EAL. Gwele'r manylion pellach yn Llawlyfr y Cymhwyster.

### Ailsefyll/ailgyflwyno

Os yw'r dysgwr yn methu'r asesiad, gellir eu hailgyflwyno.

Dim ond yr elfennau o'r asesiad na basiwyd sydd angen eu hailgyflwyno. Mae rhagor o ganllawiau ar gael isod ar gyfer pob adran o'r Prosiect Ymarferol.

Wrth ailgyflwyno, gall dysgwr ennill yr ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio gofynnol, rhaid i'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i roi sylw i'r meini prawf a fethwyd a rhoi cyfleoedd i wella a'i gefnogi i baratoi i gyrraedd y safon sy'n ofynnol.

Os nad yw dysgwyr yn hapus â deilliannau eu hasesiad, rhaid iddynt gael gwybod am eu hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr.

Rhaid dilyn y canllawiau penodol canlynol lle mae angen ailsefyll / ailgyflwyno rhannau unigol o'r prosiect.

### Cynllunio

Os nad yw'r dysgwr yn cyrraedd y trothwy llwyddo yn unrhyw gynllun tasg, gallent ailgyflwyno'r cynllun(iau) yn erbyn yr un briff(iau) prosiect ag a ddefnyddiwyd yn wreiddiol. Rhaid cynghori aseswyr mai dim ond adborth lefel-uchel y gellir ei roi i'r dysgwr yn disgrifio'r prif elfennau a fethodd ag ateb y meini prawf – **ni ddylid rhoi cyngor i'r dysgwr ar beth sydd angen iddynt ei wneud** i gywiro'r elfennau hynny. Ni ddylai'r gwaith a wneir i ailgyflwyno gwaith cynllunio fod yn fwy na 4 awr i bob tasg. Ni ellir defnyddio cynlluniau sydd wedi'u hailgyflwyno i bennu'r marc terfynol a ddefnyddir ar gyfer graddio (hy ni all cynllun sydd wedi'i ailgyflwyno fod y cynllun sy'n sgorio uchaf); dim ond at gyflawni trothwy llwyddo ar draws y 3 chynllun a gyflwynir y byddant yn cyfrannu.

### Cyflawni

Os nad yw'r dysgwr yn cyrraedd y trothwy llwyddo yn eu tasg(au) ymarferol, medrant eu hailsefyll / ailgyflwyno yn erbyn yr un briff(iau) prosiect ag a ddefnyddiwyd yn wreiddiol, yn defnyddio eu cynllun gwreiddiol. Lle nad yw'r dysgwr yn cyrraedd y trothwy llwyddo ond bu bron iddynt â gwneud (rhwng 19-23 marc), gellir cyfarwyddo'r dysgwr i ail-weithio rhannau o'r gwaith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w asesu.

Lle mae dysgwr wedi methu'n glir (18 marc neu lai), dylid eu cyfarwyddo i aildechrau'r dasg o'r dechrau.

## Gwerthuso

Os nad yw'r dysgwr yn cyrraedd y trothwy llwyddo yn eu tasg werthuso, mae'n bosibl iddo ailgyflwyno. Rhaid cynghori aseswyr mai dim ond adborth lefel-uchel y gellir ei roi i'r dysgwr yn disgrifio'r prif elfennau a fethodd ag ateb y meini prawf – **ni ddylid rhoi cyngor i'r dysgwr ar beth sydd angen iddynt ei wneud** i gywiro'r elfennau hynny. Ni chaniateir mwy na 6 awr i ddysgwyr gwblhau gwaith i gefnogi ailgyflwyniad.

## Marcio a graddio

Mae gwybodaeth farcio a gridiau ar gael yn y Pecyn Prosiect.

Gweler isod drosolwg o gyfanswm y marciau sydd ar gael ym mhob adran o'r Prosiect Ymarferol a'r marciau a'r graddau cyffredinol ar gyfer yr asesiad hwn.

## Marc cyffredinol y Prosiect Ymarferol

Mae'r tabl hwn yn dangos cyfanswm y marciau sydd ar gael ym mhob adran o'r Prosiect Ymarferol a'r marc isaf y mae'n rhaid ei gael ym mhob adran.

Adran y Prosiect	Marciau Ar Gael	Trothwy'r Marc Llwyddo
Cynllunio	90	30
Tasg Crefft 1	60	24
Tasg Crefft 2	60	24
Tasg Crefft 3	60	24
Gwerthuso	42	14
<b>Cyfanswm</b>	<b>312</b>	<b>116</b>

Rhaid cael cyfanswm y marciau a roddir ym mhob adran a'u cyfuno i greu marc cyffredinol ar gyfer y prosiect. Mae'r tabl isod yn dangos y radd i'w dyfarnu ar sail marc cyffredinol y dysgwr.

**Sylwer:** mae'r marc llwyddo trothwy yn dangos y sgôr isaf y mae'n rhaid i ddysgwyr ei chyrraedd ym mhob rhan o'r prosiect, ond nid yw'n gosod y sgôr isaf y mae'n rhaid ei chyrraedd yn gyffredinol – mae cyfanswm y marc sy'n ofynnol i lwyddo yn yr asesiad hwn i'w weld yn y tabl isod.

## Pennu gradd gyffredinol

Mae'r tabl isod yn dangos faint o farciau sydd eu hangen yn gyffredinol i gyflawni pob gradd yn yr elfen asesu hon:

Cyfanswm Marciau	Gradd	Pwyntiau
0 - 115	Methu	0
116 - 143	P1	1
144 - 171	P2	2
172 - 199	M1	3
200 - 227	M2	4
228 - 255	D1	5
256 - 283	D2	6
284 - 312	D3	7

Rhaid i'r asesydd ddefnyddio'r tabl hwn i gyfrifo gradd dros dro ar gyfer y dysgwr. Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol, ac yna gweithgarwch sicrhau ansawdd allanol a fydd yn cael ei gwblhau gan EAL. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i EAL a bydd gradd derfynol yr asesiad yn cael ei chyfuno â'r dulliau asesu eraill er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan EAL.

## 5. Canllawiau i aseswyr– Trafodaeth Dan Arweiniad

### Pwrpas a throsolwg ar yr asesiad

Bydd y Drafodaeth Dan Arweiniad yn digwydd gyda'r dysgwr mewn un eisteddiad wedi'i amseru, gan drafod dau brif faes:

- Y *maes trafod cyntaf* fydd gwerthuso a myfyrio'r dysgwr ar eu Prosiect Ymarferol. Bydd y dysgwr yn ystyried y dasg / tasgau a gwblhawyd gan roi trosolwg:
  - ar ba mor effeithiol oeddent wrth **gynllunio a pharatoi** i gwblhau tasgau cyffredin yn y fasnach grefft o'u dewis
  - ar eu **perfformiad gwaith** yn cwblhau tasgau cyffredin y fasnach grefft hon, o ran y gofynion gosodedig a'u meini prawf llwyddiant eu hunain

Bydd angen i'r dysgwr fyfrio ar eu cryfderau ac ar y pethau oedd fwyaf heriol iddynt. Bydd angen iddynt ddangos sut y byddent yn ymdrin â thasgau eraill a gwahanol y fasnach grefft yn y dyfodol ac ar draws y diwydiant gwasanaethau peirianeg adeiladu, ar sail eu myfyrio. Byddant yn myfyrio ar ddulliau cyfathrebu priodol ac effeithiol wrth weithio yn y grefft o'u dewis, yn ogystal â sut i adnabod problemau, a chanfod a phrofi atebion.

- Bydd yr *ail faes trafod* yn adeiladu ar werthusiad y dysgwr ac yn ystyried eu parodrwydd i weithio fel unigolyn hunangyflogedig yn y diwydiant adeiladu'n gyffredinol. Bydd y drafodaeth yn trafod dealltwriaeth y dysgwr o'r canlynol:
  - y nodweddion hunangyflogaeth a'r manteision a'r anfanteision y mae angen eu hystyried wrth weithio fel unigolyn hunangyflogedig yn y fasnach grefft
  - y cyrff a'r sefydliadau crefft sy'n bodoli yn y grefft o'u dewis, a sut bydden nhw'n rhyngweithio â nhw pe bydden nhw'n hunangyflogedig.
  - y cyfrifoldebau penodol y o fod yn hunangyflogedig y bydd angen i'r dysgwr eu dangos wrth weithio yn y fasnach grefft
  - patrymau cyflogaeth wrth fod yn hunangyflogedig, gan ystyried cynnydd a gostyngiad yn y galw
  - y dulliau y bydd y dysgwr yn eu defnyddio i sicrhau bod ganddo ddyletswydd gofal ar gyfer defnyddwyr

Mae canllawiau ar isafswm y marciau y mae'n rhaid eu cyflawni ym mhob adran ar gael yn yr adran Marcio a Graddio isod. Rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r gofynion hyn cyn dechrau'r asesiad hwn.

Mae'r Drafodaeth dan Arweiniad yn defnyddio dull samplu ar gyfer y meini prawf a restrir yn y fanyleb asesu isod. Wrth samplu'r meini prawf hyn, rhaid i aseswyr lunio'r drafodaeth gan ddefnyddio cwestiynau agored sy'n caniatáu i'r dysgwr ymdrin â'r holl feini prawf posibl, a rhaid i bob dysgwr unigol ddangos tystiolaeth o leiaf 50% o'r meini prawf ym mhob adran o'r drafodaeth. Rhaid i aseswyr sicrhau, dros amser, ar draws ac o fewn carfannau bod yr ystod lawn o feini prawf yn cael eu hasesu – **ni ddylid** canolbwyntio ar yr un band cyfyng o feini prawf ar gyfer asesu o fewn ac ar draws carfannau. Rhaid i dystiolaeth fod yr ystod lawn o feini prawf wedi cael ei bodloni dros amser fod ar gael i'w hadolygu fel rhan o weithdrefnau sicrhau ansawdd.

Pwrpas y Drafodaeth Dan Arweiniad, fydd yn cael ei hamseru a'i hasesu'n fewnol, yw asesu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwr. Gwneir hyn ar sail myfyrio'r dysgwr ar gwblhau'r Prosiect Ymarferol, pa mor ddibynnol yw eu hymarfer ar weithwyr mewn masnachau crefft eraill, ac ansawdd eu canlyniadau.

Caiff dysgwyr ddod â thystiolaeth eu Prosiect Ymarferol i'r Drafodaeth dan Arweiniad i gefnogi eu hymatebion.

Rhaid i'r asesydd gofio bod angen hwyluso trafodaeth drwy'r dysgwr ac un sy'n cysylltu'r ddau faes trafod perthnasol. Cyn y drafodaeth, rhaid i'r asesydd ystyried a pharatoi cyfres o gwestiynau fydd yn helpu i strwythuro a chynorthwyo'r Drafodaeth Dan Arweiniad. Dylai'r cwestiynau hyn ganolbwyntio ar y canlynol:

- **Cynllunio, gwerthuso a myfyrio'r** dysgwr ar eu gweithgareddau, ee
  - Beth ddigwyddodd?
  - Beth oedden nhw'n disgwyl fyddai'n digwydd?
  - Beth wnaeth eich synnu nhw, neu beth wnaeth ddim mynd yn ôl y disgwyl?
  - Beth fydden nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
  - Beth maen nhw wedi'i ddysgu am y ffordd maen nhw'n gweithio ac am eu hymarfer o ran y gweithgareddau?
  - Sut byddent yn cyfathrebu cynlluniau, heriau a deilliannau'n effeithiol yng nghyd-destun y grefft o'u dewis?
- Yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillodd y dysgwr a fydd yn eu cynorthwyo i **ddatblygu eu cyflogadwyedd a'u gyrfa'n ehangach**, ee
  - Beth yw nodweddion bod yn hunangyflogedig, a pham mae'r rhain yn bwysig i'w hystyried?
  - Beth yw manteision ac anfanteision hunangyflogaeth.
  - Pa gyrff a sefydliadau crefft sy'n bodoli yn y grefft o'u dewis, a sut bydden nhw'n rhyngweithio â nhw pe bydden nhw'n hunangyflogedig?
  - Pa gyfrifoldebau fyddai ganddynt o fod yn hunangyflogedig?
  - Pa gymorth sydd ar gael pan fyddant yn hunangyflogedig ar eu taith gyrfa barhaus wrth weithio ym maes peirianeg gwasanaethau adeiladu?
  - Beth yw eu dyletswydd gofal fel unigolyn hunangyflogedig?
  -

Bydd y Drafodaeth Dan Arweiniad yn cael ei marcio yn erbyn y meini prawf marcio yn y Pecyn Asesu hwn.

Bydd yr asesiad hefyd yn cyfrannu at y cylch dysgu gan atgyfnerthu profiad y dysgwr drwy fyfyrto a gwerthuso er mwyn hwyluso datblygu eu sgiliau masnach a sgiliau ehangach.



## Manylebau asesu

Gwybodaeth, Sgiliau a Dealltwriaeth o:	Uned a Deilliant Dysgu
<b>Cynnwys craidd (meini prawf asesu)</b>	
<b>1 Maes trafod: Cynllunio a gwerthuso</b>	
<p>3.1 Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol ag eraill</p> <p>3.2 Pwysigrwydd deallusrwydd emosiynol mewn cyfathrebu effeithiol.</p> <p>3.3 Sut mae cynllunio a rheoli eich amser eich hun.</p> <p>3.4 Sut i osod targedau a meini prawf llwyddiant</p> <p>3.5 Pwysigrwydd adfyfrio.</p> <p>4.1 Adnabod problemau a all godi mewn prosiectau gwasanaethau adeiladu</p> <p>4.2 Sut mae dod o hyd i atebion i broblemau.</p> <p>4.3 Sut mae profi a gwerthuso atebion.</p>	<p>201 (LO3, LO4)</p>
<p>1.1 Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes peirianeg gwasanaethau adeiladu</p> <p>1.2 Sut mae gwybod y gofynion o ran adnoddau</p> <p>1.3 Sut i amcangyfrif yr amser sydd ei angen</p> <p>2.1 Dewis yr adnoddau angenrheidiol i gwblhau'r dasg</p> <p>2.2 Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cyflawni'r dasg</p> <p>2.3 Nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg</p> <p>3.1 Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddo</p>	<p>204 (LO1, LO2, LO3)</p>
<b>2 Maes trafod: Bod yn hunangyflogedig</b>	
<p>1.1 Y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu</p> <p>1.2 Rôl y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu</p> <p>2.1 Nodweddion hunangyflogaeth</p> <p>2.2 Manteision ac anfanteision hunangyflogaeth</p> <p>2.3 Cyfrifoldebau bod yn hunangyflogedig</p> <p>2.4 Patrymau mewn cyflogaeth a chynnydd a chwymp yn y galw</p> <p>2.5 Dyletswydd gofal i sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr</p>	<p>201 (LO1, LO2)</p>

## Paratoi a chynllunio ar gyfer y Draffodaeth Dan Arweiniad

Cyn yr asesiad, rhaid rhoi rhybudd addas i'r dysgwr o ddyddiad y draffodaeth, a hynny'n ddim **llai na phum diwrnod gwaith**, i roi amser i baratoi. Rhaid i'r asesydd gynllunio'r Draffodaeth Dan Arweiniad ac adolygu tystiolaeth y prosiect, cyn yr asesiad.

Bydd y Draffodaeth Dan Arweiniad yn digwydd fel sesiwn un-i-un rhwng yr asesydd a'r dysgwr yn unig. Gall staff ychwanegol fod yn bresennol mewn amgylchiadau fel sicrhau ansawdd mewnol / allanol, addasiadau rhesymol neu ar gyfer cyfieithu, ond bydd hyn yn cael ei gytuno ymlaen llaw yn unol â pholisi'r Consortiwm ar addasiadau rhesymol. Rhaid i ddysgwyr fod yn gwbl ymwybodol o beth fydd trefniadau'r asesu ar gyfer y cymhwyster o'r dechrau.

**Arweiniad:** *Argymhellir yn gryf bod dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â chael eu cofnodi / recordio'n rheolaidd (ee fel rhan o asesiad ffurfiannol) fel eu bod yn dod i arfer â hynny. Bydd hyn yn helpu i leddfu nerfau'r dysgwr yn yr asesiad ac yn cynorthwyo i baratoi ymlaen llaw.*

## Cwestiynau a phwyntiau trafod

Bydd y Draffodaeth dan Arweiniad yn cynnwys cwestiynau strwythuredig a fydd yn cael eu datblygu gan ganolfannau gan ddefnyddio'r canllawiau sydd yn yr atodiad. Yn gyffredinol, rhaid i'r cwestiynau fod yn ddigon diddorol i'r dysgwr gan hybu a chynnal ei ddiddordeb.

Rhodddwyd lle ar y ffurflenni cofnodi ar gyfer y pwyntiau trafod i'w mapio i'r unedau cymwysterau. Gellir cofnodi hyn ar lefel uned er mwyn i'r ddwy ochr allu rheoli'r draffodaeth, wrth ei pharatoi a'i chyflwyno.

Rhaid i'r asesydd ystyried y mathau o gwestiynau a fyddai'n cynorthwyo'r draffodaeth cyn yr asesiad. Mewn llawer o achosion, ni fydd cwestiynau agoriadol yr asesydd yn archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr yn llawn. Efallai y bydd angen cwestiynau dilynol i chwilio am ragor o dystiolaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw'r cwestiynau'n ensyniol neu'n arwain y dysgwr na'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n strwythuro'r draffodaeth yn rhy haearnidd o gwmpas cwestiynau penodedig. Rhaid i'r asesydd adael i'r draffodaeth lifo'n naturiol yn ei blaen a defnyddio'r cwestiynau penodedig yn briodol wrth i'r draffodaeth ddatblygu.

## Sut y mae'r prosiect yn goleuo'r draffodaeth

Mae tystiolaeth y prosiect yn rhoi cyd-destun ar gyfer rhan gyntaf y Draffodaeth Dan Arweiniad; felly dylai'r asesydd baratoi'r dystiolaeth yn briodol a'i darparu yn ystod yr asesiad fel bo'r dysgwr yn gallu dod o hyd i unrhyw dystiolaeth benodol.

Er bod y Prosiect Ymarferol yn sail i'r Draffodaeth Dan Arweiniad, mae'r asesiad hwn yn cael ei raddio ar wahân felly ni ddylai'r asesydd (lle bo'r mater yn codi) ddwbl-gosbi gwaith prosiect y dysgwr drwy'r asesiad Traffodaeth Dan Arweiniad. Yn hytrach, mae'r Draffodaeth Dan Arweiniad yn gyfle i'r dysgwr ddangos pellter a deithiwyd o'i fesur o gyflwyniad y Prosiect Ymarferol, gwerthuso cryfderau a gwendidau a rhoi cyd-destun ar gyfer pwyntiau'r draffodaeth.

## Deunyddiau

Ar gyfer y Draffodaeth Dan Arweiniad, bydd angen dogfennau adolygu a chynllun prosiect y dysgwr. Bydd hefyd angen dyfais i recordio'r draffodaeth yn gywir.

## Paramedrau asesu: Cyflwyno'r Drafodaeth dan Arweiniad

Rhaid i'r asesydd:

- sicrhau bod y dysgwr wedi cael briff llawn ynghylch diben y drafodaeth, yn arbennig y cynnwys a fydd yn cael sylw, a'r math o wybodaeth fydd ei hangen ar yr asesydd a sut bydd yn cael ei graddio,
- sicrhau bod gan y dysgwr unrhyw ddogfennau perthnasol wrth law cyn dechrau'r Drafodaeth Dan Arweiniad,
- sicrhau bod unrhyw ofynion ychwanegol y tynnodd y ganolfan sylw atynt yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi Addasiadau Rhesymol,
- gwneud penderfyniadau asesu cyson a diduedd, drwy ddefnyddio pwyntiau trafod wedi'u cynllunio a meini prawf y cymhwyster
- ceisio tawelu nerfau'r dysgwr, gan egluro fformat, amseru a phwrpas y dyfeisiau a'r ffurflenni cofnodi.

## Paramedrau asesu: Yn ystod y Drafodaeth Dan Arweiniad

Rhaid i'r asesydd:

- yn ddelfrydol ac yn gyntaf, ymdrin â phwyntiau y mae'r dysgwr yn debygol o fod yn hyderus o'u hateb, cyn symud at bethau mwy heriol. Bydd hyn yn creu dilyniant ac yn cynorthwyo i ddyrannu marc a mesur gallu'r dysgwr.
- gofyn cwestiynau agored yn dechrau gyda 'pam', 'beth', 'ble' a 'pryd' i roi cyfle i bob dysgwr ddangos eu cyflawniad.
- gofyn cwestiynau dilynol gan roi cyfle i'r dysgwr ateb ac ymdrin â'r pwynt trafod yn llawn. Dylai'r cwestiynau fod yn rhai perthnasol, meddylgar ac ar lefel briodol.
- trafod gweithgareddau'r dysgwr gan chwilio am dystiolaeth o wybodaeth, gweithdrefnau a phrosesau penodol, o wneud penderfyniadau, a'u sgiliau. Dylai'r cwestiynau fod yn broses raddol o 'drosglwyddo' i'r dysgwr. Byddech yn disgwyl i'r dysgwr fod yn arwain y drafodaeth ar ôl y briff / cwestiynau agoriadol cychwynol.
- adnabod pynciau yn yr atebion y gellir eu trafod ymhellach nes ymlaen yn y drafodaeth.

Dylai'r drafodaeth fod yn berthnasol i'r pwnc perthnasol bob amser. Cyn gynted ag y gellir barnu hynny, dylai'r drafodaeth symud ymlaen i'r pwnc nesaf. Pan fydd yr holl bwyntiau wedi eu trafod, dylid dod â'r drafodaeth i ben. Os yw atebion y dysgwr yn crwydro oddi ar y pwnc, dylid tywys y dysgwr yn ôl at y pwnc. Dylid cadw cofnod cywir o amser dechrau a pharhad y Drafodaeth Dan Arweiniad. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar ddau faes – a rhaid i'r amser yn y drafodaeth adlewyrchu faint o gynnwys sy'n cael ei asesu ym mhob un o'r 2 faes a aseswyd.

Beth i'w osgoi yn ystod y Drafodaeth Dan Arweiniad:

- gofyn un math o gwestiwn drwy'r drafodaeth,
- ateb y cwestiwn eich hun yn lle ehangu arno i gael ymateb gan y dysgwr,
- gorlwytho'r dysgwr gyda gormod o gwestiynau, fel nad oes ganddynt amser i feddwl nac ateb yn llawn,
- diystyru atebion,
- treulio gormod o amser ar un pwynt trafod fel bod llai o amser i drafod pwyntiau eraill,
- gofyn cwestiynau cymhleth yn rhy fuan yn y drafodaeth,
- dylid osgoi gofyn cwestiynau caeedig oni bai fod angen atebion 'ie' neu 'na' penodol. Gall cwestiynau caeedig wneud i ddysgwyr 'rewi' neu 'gau lawr' a byddai hyn yn fwy tebygol dan bwysau arholiadau.

## Amser a roddir

Rhoddir **40 munud** ar gyfer y Drafodaeth Dan Arweiniad a gellir ychwanegu hyd at 5 munud fel bo'r dysgwr yn gallu cwblhau eu hateb terfynol.

Lle mae angen addasiadau rhesymol ar gyfer yr asesiad (i ddysgwyr gyda gofynion penodol) neu wasanaeth cyfieithu, bydd yr amser ychwanegol yn cael ei gytuno a'i hysbysu cyn yr asesiad yn unol â pholisi'r Consortiwm ar addasiadau rhesymol.

## Gofynion Tystiolaeth

### Trywydd Archwilio

Rhaid recordio'r Drafodaeth Dan Arweiniad (ddim yn weledol). Dylai'r ganolfan sicrhau bod y drafodaeth yn cael ei recordio a'i storio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â GDPR. Rhaid sefydlu'r trefniadau hyn ymlaen llaw â'r ganolfan, yr asesydd a'r dysgwr.

Rhaid cadw pob cofnod, hynny yw, ffurflenni a recordiadau, yn iawn ac yn ddiogel. Hefyd, rhaid i'r dysgwr lofnodi a dyddio'r ffurflenni sy'n cyd-fynd â'r recordiad er mwyn datgan dilysrwydd. Bydd gofyn i'r ffurflenni wedi'u cwblhau, sy'n cyd-fynd â'r recordiad, fod ar gael i'w hadolygu a'u samplu fel rhan o waith sicrhau ansawdd allanol.

Bydd ffurflenni cofnodi'n cael eu rhoi i'r asesydd i grynhoi'r atebion a roddir, i roi adborth ac i ddyrannu deilliant yr asesiad dros dro. Rhaid rhoi gwybod i'r dysgwr beth yw'r deilliant dros dro hwn cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai deilliant dros dro yw hwn. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Bydd canlyniadau yn cael eu cyflwyno i EAL a bydd deilliant terfynol yr asesiad yn cael ei chyfuno â'r dulliau asesu eraill er mwyn cael gradd gyffredinol ar gyfer y cymhwyster, a fydd yn cael ei rhoi gan EAL.

### Ailsefyll/ailgyflwyno

Os bydd dysgwyr yn methu â llwyddo yn yr asesiad, caniateir ei ailsefyll.

Gall dysgwyr gyflawni'r ystod lawn o farciau a graddau sydd ar gael wrth ailsefyll/ailgyflwyno.

Wrth ailsefyll y Drafodaeth dan Arweiniad, rhaid i ddysgwyr ailsefyll yr adrannau Cynllunio a Gwerthuso a Hunangyflogaeth.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio gofynnol, rhaid i'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i roi sylw i'r meini prawf a fethwyd a rhoi cyfleoedd i wella a'i helpu i baratoi i gyrraedd y safon sy'n ofynnol.

Os nad yw dysgwyr yn hapus â deilliannau eu hasesiad, rhaid iddynt gael gwybod am eu hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr.

## Marcio a graddio

Mae'r asesiad hwn wedi'i raddio.

Bydd marciau yn adran gyntaf y Drafodaeth dan Arweiniad, sy'n gysylltiedig â myfyrion ar y prosiect, yn cael eu lluosio â 3 i greu cyfanswm y marciau ar gyfer yr adran hon o'r drafodaeth. Rhoddir manylion am y meini prawf y mae hyn yn berthnasol iddynt a sut y mae'n rhaid ei gymhwyso yn y grid marcio ar gyfer yr asesiad hwn.

Pennir gradd yr asesiad drwy roi cyfanswm y marciau asesu a roddir a throsi hyn yn radd gyffredinol ar gyfer yr asesiad hwn gan ddefnyddio'r tabl isod:

Cyfanswm Marciau	Gradd	Pwyntiau
12	D3	7
11	D2	6
10	D1	5
8	M2	4
7	M1	3
5	P2	2
4*	P1*	1
0-3	Methu	0

\*Rhaid i 3 marc ddod o'r disgrifyddion Cynllunio a Gwerthuso a rhaid i 1 marc ddod o'r disgrifyddion Hunangyflogaeth.

## Grid marcio – Trafodaeth dan Arweiniad

Enw'r dysgwr:		
Dyddiad asesu:		
<b>Cynllunio a Gwerthuso - Disgrifyddion marcio</b>		<b>Marciau a enillwyd</b>
<p>Dangosodd y dysgwr y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lefel <b>syfaenol</b> o werthuso ar y tasgau a gyflawnwyd. Mae'r dysgwr yn myfyrio'n <b>fyr</b> ar gyfrifo costau, pennu adnoddau a dyrannu amser a hefyd ar sut roedd wedi cyflawni'r tasgau, drwy ei elfennau cynllunio a pherfformio – gyda rhai meysydd o gryfder personol a heriau'n cael eu <b>nodi'n fyr</b>. Mae'r dysgwr yn <b>nodi pwysigrwydd cyfathrebu</b> ag eraill yng nghyd-destun gwaith. Nid yw'r dysgwr yn gwneud <b>llawer</b> o gysylltiadau â chwblhau'r dasg/tasgau a'i ffyrdd o weithio yn y dyfodol; os canfyddir cysylltiadau – nid oes digon o fanylion ac nid yw'n rhoi hyder ynghylch trosglwyddo sgiliau'r dysgwr i amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae'r dysgwr yn <b>nodi</b> nifer o broblemau a gododd; gyda chysylltiadau <b>cyfyngedig</b> ag atebion posibl i liniaru'r rhain.</li> </ul>		1
<p>neu</p> <p>Dangosodd y dysgwr y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>lefel <b>ystyriol</b> o werthuso ar y tasgau a gyflawnwyd. Mae'r dysgwr yn dangos myfyrio wedi'i <b>ganolbwyntio</b> ar gyfrifo costau, pennu adnoddau a dyrannu amser a hefyd ar sut roedd wedi cyflawni'r tasgau, drwy ei elfennau cynllunio a chyflawni – gyda rhai meysydd o gryfder personol a heriau'n cael eu <b>nodi</b>, gydag <b>ymgais</b> i gysylltu'r meysydd hyn â deilliannau o ansawdd. Mae'r dysgwr yn nodi <b>dulliau cyfathrebu sy'n briodol i gyd-destun</b> y grefft a'r tasgau a gyflawnwyd. Mae'r dysgwr yn <b>cysylltu</b> cwblhau'r dasg/tasgau gydag ystyried ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae'r cysylltiadau a nodwyd yn <b>cynnwys manylion ac yn dangos ymateb ystyriol</b> gan y dysgwr i drosglwyddo'r hyn mae wedi'i ddsygu drwy ei dasgau i wella'r ffordd mae'n gweithio yn y dyfodol. Mae'r dysgwr yn <b>disgrifio sut roedd wedi</b> canfod problemau a oedd wedi codi ac yn disgrifio'r atebion a nodwyd ganddo.</li> </ul> <p>neu</p>		2

<p>Dangosodd y dysgwr y canlynol:</p> <p>lefel <b>gynhwysfawr</b> o werthuso ar y tasgau a gyflawnwyd. Mae'r dysgwr yn dangos lefel <b>gydlynol a chyflawn</b> o bwysu a mesur costau, pennu adnoddau a dyrannu amser a hefyd sut roedd wedi cyflawni'r tasgau, drwy ei elfennau cynllunio a gwneud – gydag amrywiaeth o gryfderau a heriau personol yn cael eu <b>gwerthuso a synergedd clir wedi'i nodi</b> rhwng y rhain a deilliannau ansawdd terfynol y dasg/tasgau. Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth o <b>ddeallusrwydd emosïynol</b> a'i rôl mewn cyfathrebu effeithiol. Mae'r dysgwr yn <b>amlinellu'n gryno</b> sut mae cwblhau'r dasg/tasgau wedi dylanwadu ar ei sgiliau a'i ffyrdd ei hun o weithio. Mae'r cysylltiadau hyn yn cael eu <b>darparu'n fanwl ac yn egluro'n glir</b> sut maen nhw wedi cael eu hystyried a'r rhesymau pam y byddan nhw'n mynd ati i ddatblygu ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Mae'r dysgwr yn disgrifio sut roeddent yn <b>rhagweld</b> problemau ac yn <b>disgrifio'r</b> atebion a nodwyd a sut y cawsant eu hymgorffori yn ystod y gweithgaredd.</p>	3
<b>Cyfanswm – marc a enillwyd x 3</b>	
<b>/9</b>	
<p><b>Hunangyflogaeth - Disgrifyddion marcio</b></p>	<b>Marc a enillwyd</b>
<p>Dangosodd y dysgwr y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amlinelliad <b>syfyaenol</b> o nodweddion hunangyflogaeth. Mae'r dysgwr yn <b>nodi</b> nifer o fanteision, anfanteision a chyfrifoldebau hunangyflogaeth. Darperir <b>cysylltiad byr</b> mewn patrymau cyflogaeth, ond gyda chysylltiadau <b>cyfyngedig</b> yn ôl cynnydd a chwymp yn y galw. Mae'r dysgwr yn nodi sefydliadau/cyrff masnach sy'n berthnasol i'w grefft. Mae'r dysgwr wedi dangos <b>rhywfaint o ystyriaeth</b> i'r ddyletswydd gofal o ran sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr, ond mae'r rhain yn cael eu darparu'n bennaf fel datganiadau cyffredinol nad ydynt yn rhoi llawer o ystyriaeth i bersbectif y dysgwr ei hun.</li> </ul>	1
<p>neu</p> <p>Dangosodd y dysgwr y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>trosolwg manwl</b> o nodweddion hunangyflogaeth ac ystyriaethau sy'n ymwneud â gwaith. Mae'r dysgwr yn <b>nodi</b> nifer o fanteision, anfanteision a chyfrifoldebau hunangyflogaeth, wrth roi <b>manyion cryno</b>. Darperir <b>amrywiaeth</b> o batrymau cyflogaeth, gyda chysylltiadau <b>clir</b> yn ôl cynnydd a chwymp yn y galw. Mae'r dysgwr yn nodi sefydliadau/cyrff masnach sy'n berthnasol i'w grefft a'r rôl maen nhw'n ei chwarae yn y sector. Mae'r dysgwr wedi dangos <b>ystyriaeth</b> i'r ddyletswydd gofal o ran sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr, gan ddarparu <b>dull gweithredu cydlynol</b> sy'n dangos sut bydd y dysgwr yn ceisio rheoli'r meysydd hyn wrth iddo ddatblygu ymhellach ei yrfa yn y sector.</li> </ul> <p>neu</p>	2

Dangosodd y dysgwr y canlynol:

- **cofnod cynhwysfawr** o nodweddion hunangyflogaeth ac ystyriaethau sy'n ymwneud â gwaith. Mae'r dysgwr yn mynd ati'n **gydlynol i archwilio amrywiaeth** o wahanol fanteision, anfanteision a chyfleoedd hunangyflogaeth, gan ddangos **dealltwriaeth ddatblygedig** o'u pwysigrwydd. Mae'r dysgwr yn nodi cyrff/sefydliadau masnach sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis, a'r rôl maen nhw'n ei chwarae yn y sector a sut bydden nhw'n rhyngweithio â nhw os ydyn nhw'n hunangyflogedig. Edrychir ar **ystod eang** o batrymau cyflogaeth, gyda **dealltwriaeth ddatblygedig** yn cael ei darparu gan y dysgwr o'r cynnydd a'r cwmp yn y galw a phwysigrwydd hyn. Mae'r dysgwr yn dangos **dealltwriaeth amlwg** o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr. Maent yn darparu **dull gweithredu strwythuredig ac ystyriol** sy'n dangos sut y byddant yn rheoli'r meysydd hyn wrth iddynt ddatblygu eu gyrfau ymhellach yn y sector.

3

Cyfanswm

/3

Marc cyffredinol

/12



## 6. Cyfuno graddau

Y graddau ar gyfer y cymhwyster hwn yw **Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth**. Os bydd dysgwr yn methu, ni fydd yn cael tystysgrif.

**Mae EAL yn cwblhau'r broses o gyfuno graddau.** Mae'r wybodaeth isod yn egluro sut mae'r broses hon yn gweithio ac mae'n cefnogi dealltwriaeth o sut mae gradd gyffredinol y cymhwyster yn cael ei chyfrifo.

Mae gradd gyffredinol y cymhwyster yn seiliedig ar gyfuno cyflawniad y dysgwr yn yr asesiadau gorfodol sydd wedi'u graddio (yr asesiad Ar-Sgrin, y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad).

Rhaid cael o leiaf gradd P1 yn yr asesiad er mwyn gallu dyfarnu'r cymhwyster. Ni ddyfernir gradd cymhwyster i ymgeiswyr sy'n methu â chyrraedd gradd P1 y safon ofynnol i lwyddo yn yr asesiad(au), ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif cymhwyster.

### Dull asesu graddfa % cyfraniad

Mae'r tabl isod yn dangos % cyfraniad pob asesiad at radd gyffredinol y cymhwyster.

<b>Asesiad ar-sgrin</b>	20%
<b>Prosiect Ymarferol</b>	60%
<b>Trafodaeth dan Arweiniad</b>	20%

### Cyfrifo gwerth pwyntiau ar gyfer asesiadau

Mae'r marc mae ymgeisydd yn ei gael ym mhob asesiad yn cael ei drosi'n bwyntiau. Mae'r pwyntiau hyn yn cyfateb i radd ar raddfa 7 pwynt yn yr asesiad hwnnw. At ddibenion cyfuno, bydd y pwyntiau wedyn yn cael eu lluosu â'r pwysoliad cyffredinol a roddir i'r asesiad hwnnw. Bydd y pwyntiau wedi'u pwysoli yn cael eu hychwanegu at ei gilydd a'u trosi'n radd cymhwyster.

Bydd amrywiaeth o bwyntiau o fewn y ffiniau Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth ar gael i ymgeiswyr er mwyn adlewyrchu perfformiad o fewn trothwy'r radd. Amlinellir y pwyntiau sydd ar gael ar gyfer pob asesiad a'r radd adlewyrchol o dan yr adrannau asesu unigol.

### Enghraifft

Mae'r canlynol yn amlinellu enghraifft o sut mae'r model cyfuno'n gweithio'n ymarferol.

Mae dysgwr yn cyflawni'r canlynol ym mhob un o elfennau'r asesiad:

	<b>Marciau yn yr asesiad</b>	<b>Gradd Asesu</b>	<b>Pwyntiau cyffredinol</b>
<b>Asesiad ar-sgrin</b>	33	P2	2
<b>Prosiect Ymarferol</b>	230	D1	5
<b>Trafodaeth dan Arweiniad</b>	8	M2	4

## Marcio a Graddio Asesiadau

Gan ddefnyddio'r tabl isod, gallwn droshaenu'r graddau a enillodd yr ymgeisydd ar gyfer pob asesiad a chael pwyntiau wedi'u pwysoli a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer y radd gyffredinol.

Gradd Asesu	Pwyntiau wedi'u Pwysoli		
	Asesu ar sgrin	Prosiect Ymarferol	Trafodaeth dan Arweiniad
D3	1.4	4.2	1.4
D2	1.2	3.6	1.2
D1	1.0	3.0	1.0
M2	0.8	2.4	0.8
M1	0.6	1.8	0.6
P2	0.4	1.2	0.4
P1	0.2	0.6	0.2
Methu	0	0	0

- Asesiad ar-sgrin = 0.4
- Prosiect Ymarferol = 3.0
- Trafodaeth dan Arweiniad = 0.8

## Gradd gyffredinol y cymhwyster

Yna caiff pwyntiau wedi'u pwysoli o bob asesiad eu cyfuno i roi cyfanswm sgôr pwyntiau wedi'u pwysoli ar gyfer y cymhwyster, ac mae'r tabl hwn yn nodi sut mae hyn wedyn yn trosi'n radd gyffredinol y cymhwyster:

Cyfanswm y sgôr pwyntiau wedi'u pwysoli =  $0.4 + 3.0 + 0.8 = 4.2$

Cyfanswm y Pwyntiau wedi'u Pwysoli	Gradd
7	Rhagoriaeth
6	Rhagoriaeth
5	Rhagoriaeth
4	Teilyngdod
3	Teilyngdod
2	Llwyddo
1	Llwyddo

Byddai gradd gyffredinol y cymhwyster, gan ddefnyddio'r raddfa graddau a ddangosir uchod, yn cael ei dyfarnu fel **Teilyngdod**.

## Cyflwyno canlyniadau a chyfrifo graddau

Mae gofyn i'r dysgwr lwyddo ym mhob asesiad er mwyn cael gradd gyffredinol am basio'r cymhwyster. Rhaid cyflwyno graddau am y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad i Wasanaethau Ar-lein EAL.

Mae'r tabl isod yn nodi beth mae'n rhaid ei gyflawni ar gyfer pob asesiad, a sut bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno.

Asesiad	Beth mae angen ei wneud er mwyn cyflawni	Cyflwyno'r canlyniad
<b>Asesiad ar-sgrin</b>	Bydd y dysgwr yn cwblhau asesiad Ar-Sgrin yn defnyddio llwyfan Asesu Diogel EAL Caiff asesiadau eu marcio'n awtomatig, a bydd gradd yn cael ei rhoi.	Asesiad yn cael ei awto-farcio a'r canlyniad yn cael ei roi gan EAL
<b>Prosiect Ymarferol</b>	Mae'r ganolfan yn rhoi marciau am adrannau cynllunio, cyflawni a gwerthuso'r Prosiect Ymarferol gan ddefnyddio'r meini prawf marcio i asesu perfformiad yn y prosiect drwyddo draw. Mae'r ganolfan yn defnyddio marc cyffredinol y prosiect i nodi'r radd a enillwyd gan ddefnyddio'r tabl "Penderfynu ar y radd gyffredinol".	Gradd llwyddo yn cael ei gadarnhau a'i gyflwyno i Wasanaethau Ar-lein EAL gan y ganolfan
<b>Trafodaeth dan Arweiniad</b>	Y ganolfan yn dyfarnu marciau'n defnyddio'r meini prawf marcio i asesu perfformiad y Drafodaeth dan Arweiniad. Defnyddir y tabl graddio yn yr adran am y Drafodaeth dan Arweiniad yn y ddogfen hon, i drosi'r marc yn radd.  Cwblhau pob rhan o'r Drafodaeth dan Arweiniad yn llwyddiannus yn unol â'r nifer sylfaenol o farciau sydd eu hangen yn adrannau 1 a 2 y Drafodaeth dan Arweiniad.	Y ganolfan yn cadarnhau ac yn cyflwyno'r gradd llwyddo i Smarter Touch.

Bydd EAL yn cyfuno'r graddau ac yn dyfarnu gradd gyffredinol derfynol ar gyfer y cymhwyster.

Bydd canlyniad terfynol y dysgwr yn cael ei hysbysu ar ôl cwblhau proses o sicrhau ansawdd allanol ac o fewn wyth wythnos i'r dyddiad y bydd y ganolfan yn cyflwyno canlyniadau terfynol y Prosiect Ymarferol a'r Drafodaeth dan Arweiniad (ac ar ôl cwblhau'r asesiad Ar-Sgrin yn llwyddiannus) i EAL.

## Atodiadau

1. Aseiad ar-sgrin
2. Ffurflenni cofnodi'r Drafodaeth dan Arweiniad

# 1. Asesiad ar-sgrin

## 1.1 Plymio a Gwresogi

Prawf Manyleb Gosodiad 1P		
<p style="text-align: center;"><b>Math o asesiad: Aml-ddewis</b>  <b>Nifer y cwestiynau: 50</b>  <b>Amser: 75 munud</b>  <b>Llyfr caeëdig, caniateir cyfrifiannell nad oes modd ei raglennu</b></p>		
Teitl yr uned	Deilliant dysgu	Nifer y marciau
<b>201:</b> Cyflogaeth a Chyflogadwyedd yn y Sector Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu	1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft perthnasol yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu	1
<b>202:</b> Newid Arferion Dros Amser	1. Deall ymarfer cysylltiedig ym maes adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu	9
	2. Gwybod am y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig sy'n newid	
	3. Gwybod am y newidiadau mewn deunyddiau, offer a thechnegau peirianeg gwasanaethau adeiladu dros amser	
	4. Deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd	
<b>205PH: Deall Egwyddorion Gwyddonol</b>	1. Deall yr unedau mesur a ddefnyddir yn y diwydiant plymio a gwresogi	11
	2. Deall priodweddau deunyddiau	
	3. Deall y berthynas rhwng ynni, gwres a phŵer	
	4. Deall egwyddorion grym a gwasgedd a'u defnyddio yn y diwydiant plymio a gwresogi	
	5. Deall egwyddorion mecanyddol y diwydiant plymio a gwresogi	
	6. Deall egwyddorion trydan yn y diwydiant plymio a gwresogi	
<b>206PH: Deall Systemau Plymio a Gwresogi Craidd</b>	1. Deall safonau a rheoliadau priodol y diwydiant sy'n berthnasol i; ddatgomisiynu, gosod a phrofi, systemau plymio a gwresogi	8
	2. Deall sut i wirio bod gwybodaeth a dogfennau am y gwaith yn gyfredol ac yn berthnasol a bod y peiriannau, yr offer, y cyfarpar mynediad a'r offer yn addas i'r diben	
	3. Deall sut mae llunio asesiad risg a datganiad dull ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud, gan gynnwys adnabod a defnyddio cyfarpar diogelu personol, yn unol â'r canlynol: dyluniad y system plymio a gwresogi, amodau'r amgylchedd gwaith, gweithdrefnau'r sefydliad.	
	4. Deall gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cadarnhau, cyn i'r gwaith ddechrau, bod modd cael mynediad at leoliad y gwaith a'r man gweithio yn ddiogel a'u bod wedi cael eu harchwilio i weld a oes risg i staff eraill ar y safle, ac ar gyfer cymryd camau priodol os oes risg yn bodoli	

	<p>5. Deall y dulliau ar gyfer cludo a/neu waredu deunyddiau, sylweddau a hylifau gwastraff yn ddiogel, yn unol â chyfarwyddiadau'r cyflenwyr a'r gwneuthurwyr</p> <p>6. Deall y dulliau ar gyfer penderfynu bod y cyfarpar, y cydrannau a'r ategolion yn addas i'r diben yn unol â gweithdrefnau sefydliadol cydnabyddedig y diwydiant</p> <p>7. Deall y dulliau a'r technegau ar gyfer archwilio a rhag-gomisiynu'r system blymio a gwresogi yn unol â'r canlynol: dyluniad y system blymio a gwresogi, yr amgylchedd gweithio, cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr, y gweithdrefnau profi priodol ar gyfer cadarnhau cywirdeb y system</p> <p>8. Deall sut mae cwblhau dogfennau perthnasol yn unol â gweithdrefnau sefydliadol</p> <p>9. Deall y dulliau a'r technegau ar gyfer datgomisiynu'r systemau plymio a gwresogi yn unol â'r canlynol: dyluniad y system blymio a gwresogi, yr amgylchedd gwaith, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr</p> <p>10. Deall y dulliau a'r technegau i sicrhau na ellir ailgychwyn y system blymio a gwresogi mewn camgymeriad na'i gwneud yn beryglus</p> <p>11. Deall sut mae cwblhau dogfennau perthnasol yn unol â gweithdrefnau sefydliadol</p>	
<b>207PH: Deall systemau dŵr oer</b>	<p>1. Deall y ffyrdd o ddefnyddio systemau dŵr oer, eu manteision a'u cyfyngiadau.</p> <p>2. Deall y ffyrdd o ddefnyddio offer, cydrannau ac ategolion, eu manteision a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r amgylchedd gwaith</p> <p>3. Deall y dulliau a'r technegau ar gyfer ffitio, gosod a chysylltu'r cyfarpar, y cydrannau a'r ategolion a ddewiswyd yn unol â'r canlynol: dyluniad y system blymio a gwresogi, yr amgylchedd gwaith, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr</p> <p>4. Deall y gweithdrefnau profi priodol ar gyfer cadarnhau cadernid y systemau</p>	5
<b>208PH: Deall systemau dŵr poeth</b>	<p>1. Deall y ffyrdd o ddefnyddio systemau dŵr poeth, eu manteision a'u cyfyngiadau</p> <p>2. Deall y ffyrdd o ddefnyddio offer, cydrannau ac ategolion, eu manteision a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r amgylchedd gwaith</p> <p>3. Deall y dulliau a'r technegau ar gyfer ffitio, gosod a chysylltu'r cyfarpar, y cydrannau a'r ategolion a ddewiswyd yn unol â'r canlynol: dyluniad y system blymio a gwresogi, yr amgylchedd gwaith, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr</p> <p>4. Deall y gweithdrefnau profi priodol ar gyfer cadarnhau cadernid y systemau</p>	5
<b>209PH: Deall systemau gwres canolog</b>	<p>1. Deall defnydd systemau gwres canolog, eu manteision a'u cyfyngiadau</p> <p>2. Deall y ffyrdd o ddefnyddio offer, cydrannau ac ategolion, eu manteision a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r amgylchedd gwaith</p> <p>3. Deall y dulliau a'r technegau ar gyfer ffitio, gosod a chysylltu'r cyfarpar, y cydrannau a'r ategolion a ddewiswyd yn unol â'r canlynol: dyluniad y system blymio a gwresogi, yr amgylchedd gwaith, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr</p>	4

	4. Deall y gweithdrefnau profi priodol ar gyfer cadarnhau cadernid y systemau	
<b>210PH: Deall systemau dŵr glaw</b>	1. Deall y ffyrdd o ddefnyddio systemau dŵr glaw, eu manteision a'u cyfyngiadau	2
	2. Deall y ffyrdd o ddefnyddio offer, cydrannau ac ategolion, eu manteision a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r amgylchedd gwaith	
<b>211PH: Deall Systemau Glanweithdra</b>	1. Deall y ffyrdd o ddefnyddio systemau cyfarpar glanweithdra a'r pibellau, eu manteision a'u cyfyngiadau	5
	2. Deall y ffyrdd o ddefnyddio offer, cydrannau ac ategolion, eu manteision a'u cyfyngiadau mewn perthynas â'r amgylchedd gwaith	
	3. Deall y dulliau a'r technegau ar gyfer ffitio, gosod a chysylltu'r cyfarpar, y cydrannau a'r ategolion a ddewiswyd yn unol â'r canlynol: dyluniad y system blymio a gwresogi, yr amgylchedd gwaith, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr	
	4. Deall y gweithdrefnau profi priodol ar gyfer cadarnhau cadernid y systemau	
	<b>Cyfanswm</b>	<b>50</b>

## 1.2 Gosod Systemau ac Offer Electrodechnegol

<b>Prawf 1 Manyleb Gosodiad</b>		
<b>Math o asesiad: Aml-ddewis</b> <b>Nifer y cwestiynau: 50</b> <b>Amser: 75 munud</b> <b>Llyfr caeëdig, caniateir cyfrifiannell nad oes modd ei raglennu</b>		
<b>Teitl yr uned</b>	<b>Deilliant dysgu</b>	<b>Nifer y marciau</b>
<b>201: Cyflogaeth a Chyflogadwyedd yn y Sector Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu</b>	1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft perthnasol yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu	1
<b>202: Newid Arferion Dros Amser</b>	1. Deall ymarfer cysylltiedig ym maes adeiladu a pheirianeg gwasanaethau adeiladu	9
	2. Gwybod am y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig sy'n newid	
	3. Gwybod am y newidiadau mewn deunyddiau, offer a thechnegau peirianeg gwasanaethau adeiladu dros amser	
	4. Deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd	
<b>204E: Deall sut mae Gosod Amgaeadau ar gyfer Ceblau Trydanol, Dargludyddion a Systemau Gwifro</b>	1. Deall gweithrediad a defnydd systemau trydanol gwahanol, eu manteision a'u cyfyngiadau. Systemau trydanol	11
	2. Deall y safonau, y rheoliadau a'r gofynion priodol yn y diwydiant sy'n berthnasol i osod amgaeadau	
	3. Deall y dulliau o ddefnyddio mathau o amgaeadau, eu manteision a'u cyfyngiadau	
<b>205E: Deall Sut mae Gosod a Cysylltu Ceblau, Dargludyddion, Systemau Weirio a Chyfarpar Trydanol</b>	1. Deall manteision a chyfyngiadau mathau o geblau trydanol, dargludyddion, systemau weirio, cyfarpar cysylltiedig, ategolion a chydrrannau a sut i'w defnyddio	8
	2. Deall dulliau cydnabyddedig y diwydiant o bennu math, maint a chapasiti ceblau trydanol, dargludyddion, systemau weirio, cyfarpar cysylltiedig, ategolion a chydrrannau mewn perthynas â dyluniad y system drydanol	
	3. Deall sut mae gosod a chysylltu mathau o geblau trydanol, dargludyddion, systemau weirio, cyfarpar cysylltiedig, ategolion a chydrrannau	



<b>206E: Deall Sut i Archwilio a Phrofi Cylchedau Trydanol wedi eu Datgysylltu</b>	1. Deall sut mae dewis yr offerynnau i'w defnyddio i gynnal ein profion perthnasol	6
	2. Deall y dulliau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal archwiliad gweledol o'r amgaeadau ceblau, y dargludyddion a'r systemau weirio	
	3. Deall y drefn gywir ar gyfer ynysu diogel	
	4. Deall y dulliau a'r prosesau i gynnal y profion yn gywir sy'n sicrhau bod y system drydanol yn gweithio'n ddiogel ac yn effeithlon.	
	5. Deall dulliau o ddarparu gwybodaeth glir a chywir i bobl berthnasol	
<b>207E: Deall Gwyddoniaeth ac Egwyddorion Trydanol Canolradd</b>	1. Deall egwyddorion mathemategol sylfaenol sy'n briodol i waith gosod trydanol	15
	2. Deall unedau mesur safonol a ddefnyddir mewn gwaith gosod a dylunio trydanol	
	3. Deall mecaneg sylfaenol a'r berthynas rhwng grym, gwaith, egni a phŵer	
	4. Deall y berthynas sylfaenol rhwng ymwrthedd, gwrthedd, foltedd, cerrynt a phŵer	
	5. Deall yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r berthynas rhwng magnetedd, trydan, cynhyrchu a systemau cyflenwi	
	<b>Cyfanswm</b>	<b>50</b>

## 2. Ffurflenni cofnodi'r Drafodaeth dan Arweiniad

Trafodaeth dan Arweiniad - Rhan 1: Y dysgwr yn myfyrio ar y Prosiect Ymarferol.  
(Mae rhai cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu cynnwys)

<b>Enw'r Dysgwr:</b>	
<b>Enw'r asesydd:</b>	
<b>Dyddiad asesu:</b>	
<p><b>1 Cynllunio a Gwerthuso</b> <i>Trafodaeth i drafod:</i></p> <p>Uned 201</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>3.1 Pwysigrwydd cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol ag eraill</li> <li>3.2 Pwysigrwydd deallusrwydd emosiynol mewn cyfathrebu effeithiol.</li> <li>3.3 Sut mae cynllunio a rheoli eich amser eich hun.</li> <li>3.4 Sut i osod targedau a meini prawf llwyddiant</li> <li>3.5 Pwysigrwydd adfyfrio.</li> <li>4.1 Adnabod problemau a all godi mewn prosiectau gwasanaethau adeiladu</li> <li>4.2 Sut mae dod o hyd i atebion i broblemau.</li> <li>4.3 Sut mae profi a gwerthuso atebion.</li> </ul> <p>Uned 204</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>1.1 Y prif dechnegau a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif gwaith/prosiectau ym maes peirianeg gwasanaethau adeiladu</li> <li>1.2 Sut mae gwybod y gofynion o ran adnoddau</li> <li>1.3 Sut i amcangyfrif yr amser sydd ei angen</li> <li>2.1 Dewis yr adnoddau angenrheidiol i gwblhau'r dasg</li> <li>2.2 Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cyflawni'r dasg</li> <li>2.3 Nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg</li> <li>3.2 Gwerthuso gwaith gorffenedig yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddo.</li> </ul>	
<p><b>Rhestrwch y meini prawf a samplwyd fel rhan o'r Drafodaeth dan Arweiniad hon (rhaid samplu o leiaf 50% o'r meini prawf ym mhob rhan o'r drafodaeth):</b></p>	
<p><i>Cwestiynau Enghreifftiol:</i></p> <p><i>Pa dechnegau wnaethoch chi eu nodi ar gyfer amcangyfrif cwblhau'r tasgau? Esboniwch pam eich bod wedi dewis y technegau hyn a sut roeddent wedi effeithio ar eich dull cyffredinol o ymdrin â'r tasgau.</i></p> <p><i>Beth oedd y mathau o luniadau/cynlluniau y gwnaethoch eu creu yng ngham cynllunio'r prosiect?? Eglurwch sut y gwnaethoch eu defnyddio yn y tasgau ymarferol.</i></p>	

*Beth oedd y prif weithgareddau gwaith a oedd yn rhan o'ch cynllun gwaith? Esboniwch sut gwnaethoch amcangyfrif faint o amser sydd ei angen ar gyfer pob un o'r tasgau ymarferol.*

*Sut oeddech chi'n cadw ar y trywydd iawn o ran amser a chyflymder y gwaith yn eich prosiectau? Beth oedd eich amcanion/meini prawf llwyddiant/cerrig milltir penodol chi? Wnaethoch chi gwrdd â nhw?*

*Pa adnoddau wnaethoch chi eu nodi ar gyfer cwblhau'r tasgau? Esboniwch lle cawsoch chi afael arnynt a sut wnaeth hyn effeithio ar eich dull cyffredinol o gwblhau'r tasgau.*

*Pa dechnegau ymarferol wnaethoch chi eu defnyddio wrth gwblhau'r tasgau? Esboniwch pam eich bod wedi dewis y technegau hyn a sut roeddent wedi effeithio ar eich dull cyffredinol o ymdrin â'r tasgau.*

*A wnaeth eich dull weithio? Beth aeth yn dda? Beth nad oedd cystal? Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol/beth fyddwch chi'n ei wneud y tro nesaf/beth wnaethoch chi ei ddysgu am eich dull?*

*Beth oedd y meini prawf llwyddiant a osodoch i chi eich hun ar gyfer y prosiect hwn? Eglurwch i ba raddau roeddech chi wedi bodloni eich meini prawf llwyddo.*

*Beth oedd cryfderau a gwendidau eich Prosiectau Ymarferol? Sut wnaethoch chi oresgyn problemau?*

*Beth oedd y rhan anoddaf o'r gwaith gosod i chi? Pa broblemau a gododd? Sut gwnaethoch chi ddelio â nhw? Pa welliannau fyddwch chi'n eu gwneud y tro nesaf?*

*Sut ydych chi wedi gwella eich gwaith yn y prosiectau? (Beth oedd y pethau sydd wedi gwella; sut wnaethon nhw wella)*

**Stamp amser:**

**Marc  
/9**

## **2 Hunangyflogaeth**

*Trafodaeth i drafod:*

- 1.1 Y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu
- 1.2 Rôl y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector peirianeg gwasanaethau adeiladu
  
- 2.1 Nodweddion hunangyflogaeth
- 2.2 Manteision ac anfanteision bod yn hunangyflogedig
- 2.3 Cyfrifoldebau bod yn hunangyflogedig
- 2.4 Patrymau mewn cyflogaeth a chynnydd a chwymp yn y galw
- 2.5 Dyletswydd gofal i sicrhau bod cynnyrch a gwaith yn ddiogel i ddefnyddwyr.

**Rhestrwch y meini prawf a samplwyd fel rhan o'r Drafodaeth dan Arweiniad hon (rhaid samplu o leiaf 50% o'r meini prawf ym mhob rhan o'r drafodaeth):**

*Cwestiynau Enghreifftiol:*

Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng bod yn gyflogedig a bod yn hunangyflogedig?

*Beth yw manteision ac anfanteision pobl hunangyflogedig?*

*Beth yw cyfrifoldebau bod yn hunangyflogedig? (er enghraifft, yn wahanol i fod yn gyflogedig)*

*Pa gyrff crefft sy'n bodoli yn y grefft o'ch dewis, a sut byddech chi'n rhyngweithio â nhw pe byddech chi'n hunangyflogedig?*

Pa gyrff neu sefydliadau proffesiynol all helpu pobl hunangyflogedig yn eich crefft? Pa effaith fyddai hynny'n ei chael arnoch?

Sut fywyd gwaith ydych chi'n meddwl sydd gan unigolyn hunangyflogedig? Sut byddai cynnydd a chwymp yn y galw yn effeithio ar y bywyd gwaith hwn?

*Pe baech chi'n gweithio ar eich contract eich hun (fel unigolyn hunangyflogedig), sut byddech chi'n sicrhau bod y gwaith gorffenedig yn ddiogel i'r cwsmer a'r defnyddwyr?*

*Er mwyn sicrhau bod y gwaith/cynnyrch terfynol yn ddiogel ac yn cydymffurfio; pa reoliadau sy'n berthnasol i'r grefft o'ch dewis, a sut maen nhw'n berthnasol (prif nodweddion)? Sut byddech chi'n cadarnhau cydymffurfiaeth?*

**Stamp amser:**

**Marc**

**/3**

**Cyfanswm y Marc a Enillwyd**

**/12**

Adborth o'r asesiad:

**I gyflawni'r asesiad hwn, rhaid i Ddysgwyr lwyddo yn Rhannau 1 a 2 yr asesiad hwn.**

Asesydd

llofnod: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnod y dysgwr: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Lleoliad: \_\_\_\_\_

Amser Dechrau: \_\_\_\_\_

Parhad (Munudau): \_\_\_\_\_